# Llais Ogwan

*Papur Bro Dyffryn Ogwen*

**Rhifyn 513 · Hydref 2020 · Rhifyn Digidol · Am Ddim**

# Y Dyffryn Gwyrdd



Tîm y Dyffryn Gwyrdd: Huw Davies, Angharad de Bruin, Tom Simone a Judith Kaufmann

Mae prosiect newydd yn y Dyffryn wedi penodi pedwar o bobl i swyddi cyffrous gyda'r nod uchelgeisiol o atal tlodi trwy weithredu amgylcheddol cymunedol.

Mae Dyffryn Gwyrdd yn brosiect tair blynedd sy'n cael ei gynnal gan Bartneriaeth Ogwen ac sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Dywedodd Huw Davies, sydd wedi ei benodi'n Rheolwr Dyffryn Gwyrdd, y byddent yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau, gyda chymorth gwirfoddolwyr, fydd yn helpu i ddod â'r gymuned at ei gilydd.

Dywedodd: "Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ni ym Mhartneriaeth Ogwen, a gobeithiwn y bydd Dyffryn Gwyrdd yn adeiladu ar y prosiectau niferus sy'n ymwneud â'r gymuned, yr amgylchedd a'r economi leol yr ydym eisoes wedi bod yn ymwneud â hwy.

"Rydym yn bwriadu buddsoddi yn ein car trydan ein hunain, gyda mynediad i gadeiriau olwyn i helpu pobl sydd ag anghenion cludiant, yn enwedig y rhai heb fynediad at fathau eraill o gludiant. Mae hyn yn dilyn ymlaen o Carwen, y car trydan sydd wedi bod ar fenthyg yn y Dyffryn drwy Gronfa Arloesi Gwynedd Wledig.

"Pethau eraill ar yr agenda yw gweithgareddau gyda beiciau trydan, tyfu bwyd a blodau yn y gymuned, darparu prydau bwyd i bobl oedrannus ac ynysig, helpu pobl â materion sy'n ymwneud â thlodi, rhoi cyngor ar effeithlonrwydd ynni, a llawer mwy!"

Mae Tom Simone a Judith Kaufmann wedi eu penodi yn Weithwyr Amgylchedd a Llesiant Dyffryn Gwyrdd, gydag Angharad de Bruin fel Swyddog Gweinyddol.

Symudodd Angharad yn ôl i fyw i'r dyffryn ar ôl bron i ddeng mlynedd ar hugain ar Ynys Man.

"Dw i wrth fy modd yn ôl ym mro fy mebyd, ac yn edrych ymlaen at gyfrannu at brosiect cyffrous y Dyffryn Gwyrdd - a cheisio cadw trefn ar y tîm!" meddai.

Dywedodd Tom, sydd hefyd yn gweithio fel swyddog marchnata i Bartneriaeth Ogwen: "Byddwn yn ceisio ymgysylltu â'r gymuned gymaint â phosibl, gyda digon o gyfleoedd a phrofiadau i bawb.

"Mae pobl Dyffryn Ogwen wedi dangos ein bod yn gryfach pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd, i wella ein lles ein hunain a'n cymuned."

Mae Judith, sy'n gyfieithydd, cerddor, cerddwr a garddwr, yn dod o Rachub (o'r Almaen gynt) a newydd symud i Gerlan, o ddrws melyn i ddrws coch - sôn am newid byd!

Dywedodd: "Dwi'n frwdfrydig dros unrhyw beth sy'n cadw ein natur yn naturiol, yn lleihau traffig a gwastraff, ac yn cynyddu sgiliau, tegwch a'r cyfleoedd i rannu – ac am bopeth sy'n blasu'n dda ac y gallaf ei fwyta dros gwrs gyda phobol annwyl."

## Panel Golygyddol

**Derfel Roberts**
☎ 600965
derfel.roberts@btinternet.com

**Ieuan Wyn**
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
☎ 07815 093955
l.roberts11@btinternet.com

**Neville Hughes**
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

**Walter a Menai Williams**
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

**Rhodri Llŷr Evans**
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**Owain Evans**
☎ 07588 636259
owain.evans1@gmail.com

**Carwyn Meredydd**
☎ 07867 536102
carwynian@hotmail.com

**Rhys Llwyd**
☎ 01248 601606
Rmll42@live.co.uk

## Swyddogion

**CADEIRYDD:**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION:**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

**Y LLAIS DRWY'R POST:**
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

## Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan Carwyn Meredydd.

Y golygydd ym mis Tachwedd fydd Rhys Llwyd, Tonteg, 13 Tal y Cae, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AE.
01248 601606
E-bost: Rmll42@live.co.uk

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, Hydref 31** os gwelwch yn dda. Ni fydd angen casglu a dosbarthu gan mai rhifyn digidol fydd hwn.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor
**01248 353604**
Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| **£20** | Brenda Wyn Jones, Pen y Bronnydd, Tregarth. |
| **£5** | Andre Lomozik, Rhos y Coed, Bethesda. |

**Diolch yn fawr**

## Apêl am roddion i gynnal Llais Ogwan

Mae'r Cyfnod Clo oherwydd y feirws Covid-19 wedi ein gorfodi i ohirio cyhoeddi copïau caled o Llais Ogwan am y tro. Fodd bynnag, 'rydym wedi penderfynu parhau i gyhoeddi rhifynnau digidol o'r papur am ddim ar wefannau Llais Ogwan a Bro360.

Ond, golyga hyn nad ydym yn derbyn arian o werthiant y papur a bydd hyn yn lleihau'r incwm sydd ar gael i gynnal ein papur bro sydd wedi cael ei gyhoeddi yn ddi-dor ers y cychwyn ym mis Hydref 1974.

Gobeithiwn fod pawb yn mwynhau derbyn rhifynnau digidol o'r papur i'w darllen pob mis. Byddem yn ddiolchgar iawn o dderbyn unrhyw roddion gan ein darllenwyr i'n cynorthwyo gyda'r gwaith o gynnal y papur.

Gallwch ddanfon eich rhoddion at:
Mr Neville Hughes
14 Ffordd Pant,
Bethesda,
Gwynedd LL57 3PA

Diolchwn i bawb am eu cymorth a'u cefnogaeth.

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Sefydlwyd 1969
**m.hughes a'i fab**
**CONTRACTWYR TOI**
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.*
*Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.*
*Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

**JOHN ROBERTS**

**Paentiwr**
**Papurwr**
**Teilsiwr**
**Symudol: 07747 628650**
**Ffôn: 01248 600995**

# Bywyd newydd i hen safle

Ydych chi wedi gweld y gwaith sy'n bwrw ymlaen ar hen safle ystafelloedd newid Clwb Rygbi Bethesda?

Ar y funud, mae'r safle yn fawr mwy na thomen o rwbel, ond mae dyfodol dipyn mwy cyffrous. Mae'r cynllun sy'n cael ei ddatblygu gan Grŵp Cynefin yn bwriadu adeiladu 17 cartref newydd yno.

Bydd y datblygiad yn cynnwys amrywiaeth o dai a byngalos meintiau amrywiol ar gyfer teuluoedd a chyplau. Bydd y tai yn cael eu gosod ar sail rhent cymdeithasol.

Mae gwaith dychwel yr hen adeilad wedi ei gwblhau, ac mae'r contractwr wrthi ar y funud yn parhau i glirio'r safle.

Nododd Grŵp Cynefin eu bod yn aros cymeradwyaeth gan Adran Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar welliannau i'r gyffordd oddi ar Ffordd yr Orsaf i'r A5. Pan fydd yr hawl yma wedi ei roi, bydd modd cychwyn ar adeiladu'r tai.

Yn ddibynnol ar y cymeradwyaeth yma, y nod yw y bydd y gwaith adeiladu wedi ei orffen yn fuan yn 2022.



Sut bydd y datblygiad yn edrych



Mae gwaith dymchwel yr hen glwb yn bwrw ymlaen

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

**Gwobrau Ebrill**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (40) | Barbara Owen, Rhos y Nant, Bethesda. |
| £20.00 | (134) | Brenda Wyn Jones, Pen y Bronnydd, Tregarth. |
| £10.00 | (160) | Audrey Griffith, Talgarreg, Llandysul. |
| £5.00 | (172) | Wendy Jones, Llanllechid. |

**Gwobrau Mai**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (193) | Alan Davies, Porthaethwy. |
| £20.00 | (141) | Iona Wyn Jones, Pentref Llandygai. |
| £10.00 | (60) | Gomer Davies, Tal y Cae, Tregarth. |
| £5.00 | (20) | Andre Lomozik, Rhos y Coed, Bethesda. |

**Gwobrau Mehefin**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (78) | Dafydd Roberts, Bwthyn Cefn Braich, Rhiwlas. |
| £20.00 | (18) | Jennie Jones, Bryn Caseg, Bethesda. |
| £10.00 | (87) | Rhian Owen, Bro Syr Ifor, Tregarth. |
| £5.00 | (38) | Beryl Wynne Edwards, Sgwâr Buddug, Bethesda. |

**Gwobrau Gorffennaf**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (87) | Rhian Owen, Bro Syr Ifor, Tregarth. |
| £20.00 | (54) | Iris Harper, TŷNewydd, Llandygai. |
| £10.00 | (16) | Margaret A. Jones, Pantglas, Bethesda. |
| £5.00 | (86) | Rosemary Williams, Ffordd Tanrhiw, Tregarth. |

**Diolch yn fawr!**

(Bydd gwobrau Awst hyd at fis Tachwedd yn ymddangos yn y rhifyn nesaf.)

BYSUS D. P. Owens RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853



# Diogelu rhag llifogydd

Gyda rhai wythnosau bellach wedi mynd heibio ers llifogydd sylweddol Storm Francis, cafwyd llifogydd pellach yn Abergwyngregyn ar fore Sul, 4 Hydref diolch i Storm Alex.

Yn dilyn storm mis Awst roedd y Cynghorydd Dafydd Meurig sy'n cynrychioli Arllechwedd ar Gyngor Gwynedd wedi bod yn brysur yn galw am sicrhau fod unrhyw beth y gellir ei gyflawni i warchod cartrefi rhag llifogydd yn dechrau yn fuan cyn rhagor o stormydd misoedd y gaeaf. Er bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymateb wrth wneud gwaith yn yr Afon Aber, nid oedd yn ddigon i arbed digwyddiad arall yn yr ardal ym mis Hydref.

"Roedd y llifogydd a welwyd yn Abergwyngregyn a Tanlôn ddiwedd Awst yn sicr yn rhywbeth nad oeddwn am ei am ei weld yn digwydd eto a bûm yn annog gwaith brys i fynd i'r afael a'r materion yn yr ardaloedd yna.

"Bydd darllenwyr Llais Ogwan yn cofio am y frwydr hir fu i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru rai blynyddoedd yn ôl ar gyfer gwaith atal llifogydd yn ardal Talybont. Dwi'n mawr obeithio y bydd modd cyflwyno gwelliannau tymor-hir cyn Abergwyngregyn er mwyn osgoi golygfeydd tebyg i'r rhai welson ni fis Awst a mis Hydref.

"Ac o gofio nôl am ein hymdrech cymunedol i sicrhau gwaith atal llifogydd sylweddol Talybont rai blynyddoedd yn ôl, dwi'n falch iawn fod yr ymdrech yna wedi dwyn ffrwyth. Fyddwn i ddim eisiau meddwl am yr effaith ar drigolion yno oni bai ein bod wedi cael cefnogaeth y llywodraeth yn y diwedd."

Mae hen hanes o lifogydd yn ardal Tanlôn, sydd wedi achosi trafferthion i'r rheini sy'n byw yno. Da felly gallu adrodd fod disgwyl i waith lleihau risg llifogydd gychwyn cyn diwedd mis Hydref cyn i'r gaeaf gyrraedd ar ei anterth.

Bydd y gwaith sy'n cael ei gydlynu gan adran YGC Cyngor Gwynedd yn cynnwys gosod grid a chylfat newydd a fydd yn help i osgoi sefyllfa lle bydd dwr yn dod i'r ffordd ac yna'n gorlifo cartrefi Tanlôn. Edrychwn ymlaen at weld y gwaith yn cychwyn yn fuan.





## Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

**Cyhoeddi nofel arall**

Perl yw teitl nofel ddiweddaraf Bet Jones, a fu'n byw am flynyddoedd ym Mryn Seiriol, Carreg y Gath ond bellach mae hi ac Elwyn wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon. Yn Eisteddfod Dinbych enillodd wobr Daniel Owen am ei nofel Craciau, ac wedi cyhoeddi sawl nofel arall hefyd. Mae'r nofel ddiweraddaf yn ymwneud â'r cyfnod erchyll yn y 90au pan rwygwyd Iwgloslafia gan gyfres o wrthdaro ethnig. Bomiwyd dinasoedd prydferth fel Dubronvik a dyna gefndir y nofel yn ogystal ag Eifionydd. Yn sgil y rhyfel daeth Croatia yn wlad annibynnol ac mae Bet ac Elwyn wedi bod yno am wyliau sawl tro ac wedi ymddiddori yn hanes y wlad. Mae ôl ymchwil i gefndir y wlad yn amlwg iawn. Cefais y nofel yn anrheg penblwydd ac wedi ei mwynhau yn arw.

**Darganfod pethau o'r gorffennol**

Tra'n tyrchu trwy hen focs gwelais dri peth diddorol yn ymwneud a fy nghyfnod yn Ysgol Dyffryn Ogwen yn y chwedegau. Un ohonynt oedd rhaglen Tair Drama gan Gwmni Ysgol Dyffryn Ogwen. Doedd dim dyddiad ar y rhaglen ond tybiaf mai tua 1963 ydoedd. Oes rhywun yn gallu cadarnhau hynny?

Y ddrama gyntaf oedd "Noson o Lety" gan Huw Lloyd Edwards a'r lleoliad oedd ystafell mewn gwesty dwyreiniol yn amser Herod Fawr. Yr actorion oedd Peter Dutton, Arwyn Oliver, Iona Jones, Gareth William Jones, Brian Mostyn Griffith a Richard Andrew Hughes.

Yr ail ddrama oedd "Perlau Siwan" gan Gwenlyn Parry wedi'i lleoli mewn Ystafell ym Mhlas Llwyncoed ychydig cyn y Nadolig. Yn cymryd rhan oedd Eleri Roberts, Emlyn Hughes, Iona Evans, Garry Griffiths, Sheila Williams, Gwynfryn Davies a Margaret Pritchard.

Yr un olaf oedd "Baban Fflandrys", addasiad o ddrama C Hamilton gan J Elwyn Hughes. Yr actorion oedd Aled Wyn Gruffydd, Cynrig Hughes, David John Ansonia. Yn anffodus does dim enw i Mair ac efallai fod rhywun yn cofio pwy a chwaraeodd y rhan yma. Roedd nifer o fugeiliaid ac angylion yn y cast hefyd. Y Cynhyrchwyr oedd Nesta Jones, J Elwyn Hughes a Gwenlyn Parry.

Yr ail raglen oedd "y Dyddiau Olaf", pasiant o Ganu, Adrodd a Drama mewn chwe golygfa gan Gwenlyn Parry ac yn cynnwys eitemau o'r Messiah. Roedd y perfformiad yma yng Nghapel Jerusalem a'r dyddiad oedd 1961. Roedd y parti adrodd yng ngofal W. J. Davies, y gerddoriaeth dan ofal Ken Evans gyda Ieuan Jones wrth yr organ. Yr unawdwyr oedd Helen Edwards, Alwen Jones, Pat Parry s Blodwen Thomas. John Hughes oedd Crist, Ffrancon Roberts oedd Pedr, Gwyn Parry oedd Judas a Huw John Hughes oedd Peilat.

Roedd canmol mawr i'r perfformiad yma ac roedd yn fraint cael bod yn rhan ohono.

Y peth olaf a welais yn y bocs oedd adroddiad a ysgrifennais am Eisteddfod yr ysgol a gynhelid bob yn ail blwyddyn ac eto dim dyddiad. Does gen i ddim syniad be' oedd pwrpas yr erthygl a'r paragraff olaf yw'r mwyaf diddorol.

"O'r diwedd daeth y diwrnod mawr a phawb yn dyfalu pwy oedd enillwyr y Gadair a'r Fedal Ryddiaith a chawsom dipyn o sioc pan glywsom mai Rhiannon Owen, merch Roy Owen, o'r 3ydd dosbarth oedd wedi ennill y Gadair ac Eleri Roberts o'r pedwerydd oedd enillydd y Fedal Ryddiaith. Gwnaethpwyd y cadeirio yn urddasol dros ben. Yr Archdderwydd oedd Huw Brown, neu yn hytrach Ap Cemeg i roi ei enw barddol iddo. Y Prifeirdd oedd Mab y Bos, John Bugail Defaid William Morgan, Pwt Fach o Rhiwlas, Pwt Dipyn Bach Mwy o Ben y Banc(?) a Dilys Dal o Rhiwlas.

Ond i lawer y Côr Cymysg oedd yr eitem bwysicaf. Gorfu rhoi arweinydd un côr ar ben cadair am ei bod mor fychan a chafodd un arweinydd anffawd hefyd. Yr oedd wedi brifo ei fys ac roedd "bandage" mawr arno, ond aeth i gymaint hwyl wrth arwain fel y neidiodd oddi ar ei fys i ganol y gynulleidfa. Fedrwch chi ddyfalu pwy oedd yn arwain ar ben cadair a phwy tybed oedd wedi brifo'i fys?

Dyddiau dfyr ac atgofion melys/ Buasai'm braf cael ymateb i'r digwyddiadau uchod. Beth amdani?

**Ieuenctid y pentref**

Bu'n gyfnod dyrys i'r rhai oedd yn eistedd arholiadau ond mae'n braf clywed fod amryw wedi mynd ymlaen i goleg neu addysg uwch. Roedd Jessica, Ceri, Megan Wyn wedi eistedd arholiadau Lefel A ac y mae Megan, Carreg y Gath yn mynd i Brifysgol Aberystwyth a Ciara yn mynd i Brifysgol Bangor. Mae'r canlynol wedi eistedd TGAU, Gwen, Georgio, Seren, Cai, Sophie, Cathy, Geraint a Leanne. Pob hwyl i chi yn y 6ed Dosbarth neu yng Ngholeg Menai.

**Daw eto haul ar fryn**

Roedd y llinell yma yn cael eu llefaru yn aml a'r ddechrau'r cloi ac fe ddaeth yr haul a bu llacio ar amryw o'r cyfyngiadau . Yn anffodus mae'r haul dan gwmwl unwaith eto a llawer wedi anghofio am y rheolau a'r rhifau sydd â'r haint yn cynyddu yn ddyddiol.

Clywais ddywediad arall hefyd. "O'r felltith rhyw fendith fu". Rhy fuan efallai i gyfrif ein bendithion.

Cofion atoch a cadwch yn ddiogel.

# Cyhoeddi gwaith ymchwil meddygol Mari

Mae merch o'r Gerlan wedi bod yn ymchwilio i brosiect blaengar sy'n edrych ar ofal i gleifion Coronafeirws.

Mae Mari Davies yn fyfyrwraig feddygol yn ei blwyddyn olaf ym Mhrifysgol Caerdydd. Gyda dechrau'r pandemig COVID-19 gofynnodd y Brifysgol i fyfyrwyr ddychwelyd adref er mwyn astudio. Roedd gofyn i fyfyrwyr weithio ar brosiect ymchwil mewn maes o ddiddordeb penodol iddynt.

Wrth astudio yn Brifysgol roedd Mari wedi datblygu diddordeb ym maes anaestheteg a meddygaeth gofal dwys.

Manteisiodd ar y cyfle i weithio ar brosiect yn ymwneud a gofalu am gleifion gyda COVID-19 yn yr adran gofal dwys. Ymchwiliodd i'r datblygiadau mewn technoleg yn y maes gan ddarllen yn estynedig am y technegau cyfoes a'r heriau sy'n wynebu staff wrth ymdopi a'r pandemig.

Datblygodd Mari'r prosiect mewn partneriaeth gyda Dr Iljaz Hodzovic, ymgynghorydd anaesthetig yn Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd. Mae'r ymchwil yn canolbwyntio ar y defnydd o dechnoleg fideo i osod pibell anadlu mewn cleifion sy'n dioddef COVID-19.

Mae'r papur yn amlygu manteision y dechnoleg i gleifion tra'n gwarchod staff meddygol. Yn ystod mis Medi eleni, derbyniodd y ddau newyddion gwych bod y papur am gael ei gyhoeddi yn y cyfnodolyn meddygol 'Trends in anaesthesia and critical care'.

Mae hyn yn dipyn o gamp o ystyried bod gan Mari flwyddyn arall yn y coleg cyn iddi gymhwyso fel meddyg. Gellir darllen ymhellach am y gwaith yn https://tinyurl.com/y5xvegoe




**Mari yn gwirio pwysau gwaed y Prif Weinidog, Mark Drakeford yn ystod sesiwn iechyd yn Eisteddfod Llanrwst y llynedd**

## Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853
Barbara Jones,
1 Dol Helyg, Talybont ☎ 353500

**Marwolaeth**
Disgynnodd cwmwl du dros y pentref y mis diwethaf, wrth inni glywed y newyddion trist bod dau o'n ffrindiau wedi'n gadael o fewn ychydig amser i'w gilydd.

Bu farw Fred Bestwick yn dawel yn ei gartref, 26 Cae Gwigin, ar 15 Medi, ar ôl salwch byr. Roedd Fred yn boblogaidd iawn ymysg ei lu ffrindiau a'i gydnabod, fel y tystiai'r rhai a ddaeth i sefyll ar y pafin i dalu'r gymwynas olaf iddo, wrth i'r ceir adael y tŷ. Gresyn na chawsom fod yn yr Amlosgfa i glywed teyrngedau'r rhai oedd yn ei adnabod orau. Estynnwn gydymdeimlad dwys at ei ddau fab, Peter a Stephen, a'r teulu oll yn eu colled mawr.

Bu farw Alan Hughes, 1 Bro Emrys, yntau'n dawel yn ei gartref, ar 17 Medi. Gedy ei weddw, June, ei ferch Rachelle a'i gŵr, Brian, a'u tair merch, Emma, Amy a Sarah. Meddyliwn yn arbennig am June, ar adeg mor drist yn hanes y teulu, a hithau'n aros yng Nghartref Glan Menai, Treborth. Roedd Alan, June a Rachelle yn aelodwau ffyddlon yn Eglwys Sant Cross.

**Damwain**
Cafodd Mrs Thelma Williams, 68 Bro Emrys, godwm cas wrth iddi roi dillad ar y lein. Torrodd ei garddwrn ac asgwrn yn ei hyswyd. Mae torri unrhyw asgwrn yn boenus ac annifyr, ond mae rhywun mor ddibynnol ar ei law a'i fraich, rywsut. Brysia wella, Thelma. Mae'n dda bod gen ti deulu a ffrindiau ardderchog o'th gwmpas, i'th helpu dros yr adeg waethaf.

**Ysbyty**
Gwella gartref mae Mrs Ann Pritchard, Bryn Môr, Gatws, yn dilyn codwm, pryd y torrodd ei chlun, a gorfod treulio peth amser yn Ysbyty Gwynedd. 'Rydym yn meddwl amdanat, Ann, ac yn dymuno gwellhad llwyr iti. Yn ôl pob sôn, mae Dafydd yn nyrs heb ei ail.

Bu'n rhaid i Keith Jones, 13 Dolhelyg, fynd yn ôl i Ysbyty Glan Clwyd fwy nac unwaith, ond gartref mae o erbyn hyn. Mawr obeithio y caiff lonydd o hyn ymlaen. Mae'r misoedd diwethaf wedi bod rhai yn anodd iawn i'r teulu oll. Mae Sandra, ei wraig, newydd gael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd, ond mae hithau adref bellach. Traed i fyny hynny fedri di, Sandra! Dymunwn wellhad buan i'r ddau ohonoch.

Gwn fod rhai eraill o Dalybont heb fod yn dda eu hiechyd, ac ambell un yn yr Ysbyty ar hyn o bryd. Anfonwn ddymuniadau gorau i bob un ohonoch. Rydym yn byw mewn cyfnod anodd iawn, lle mae cyfyngiadau Covid yn golygu na chaiff neb, hyd yn oed y teulu agos, ymweld â chlaf yn yr Ysbyty.

**Geni**
Ymddiheuriadau diffuant i John Ellis a Ruth, fferm Penybryn Isaf, am beidio â chynnwys y newydd dda am enedigaeth eu merch fach yn 'Llais Ogwan' y mis diwethaf. Cafodd Mared Eilan ei geni ar 30 Awst. Dw 'i'n siŵr bod Iwan wedi mopio efo'i chwaer fach. Pob bendith i'r teulu oll.

**Apêl**
Bobl Talybont, plis ga'i apelio am newyddion o bob math i roi yn y 'Llais', yn enwedig hanes ein pobl ifainc. Rydym wedi'u gwylio'n tyfu i fyny, ac mae gennym wir diddordeb yn eu llwyddiannau. Dyna'r fantais o fyw mewn pentref, lle mae bron pawb yn adnabod ein gilydd.

## Capel Bethlehem

*Oedfaon y Sul*
Yn dilyn ein hoedfa agoriadol ar 13 Medi, gobeithiwn gynnal ein hoedfaon o hyn i'r Nadolig am 2 o'r gloch ar yr ail Sul o'r mis sef, 11 Hydref, 8 Tachwedd a 13 Rhagfyr. Bydd yr oedfaon yng ngofal ein gweinidog, y Parchedig D. John Pritchard. Croeso cynnes i bawb.

## Eglwys St Cross

*Cydymdeimlad*
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth sydyn Alan Hughes, 1 Bro Emrys, ar 17 Medi, yn 81 mlwydd oed - gŵr gofalus June, tad annwyl Rachelle a thad-yng-nghyfraith Brian, a thaid annwyl a balch i Emma, Amy a Sarah. Estynnwn ein cydymdeimladau diffuant at yr holl deulu yn eu profedigaeth drist. Gŵr bonheddig a chyfeillgar bob amser.
Yr un wythnos, bu farw Fred Bestwick, Cae Gwigin. Estynnwn ein cydymdeimladau'r un mor ddiffuant at ei deulu o, hefyd.

*Salwch*
Dymunwn wellhad buan i Ann Pritchard (Ann Glan Môr) sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar ar ôl torri ei choes. Falch o ddeall ei bod hi wedi dod adref. Da clywed hefyd bod Eva Thomas, Waen Wen, yn gwella ar ôl iddi hi hefyd torri ei choes yn yr haf, ond sioc i glywed bod Arfon, ei gŵr, wedi cael ei daro yn wael a gorfod treulio ychydig o ddyddiau yn yr ysbyty. Brysiwch wella! Mae Sheila Owen, Millbank, yn disgwyl llawdriniaeth yn fuan - pob dymuniad da i ti, Sheila.

*Gwasanaethau*
Nid oes gennym ddyddiad i ail-agor Eglwys St Cross eto ar gyfer gwasanaethau, ond efallai y byddwn efo'n gilydd cyn bo hir i ddathlu Diolchgarwch, felly cadwch lygaid ar yr hysbysfwrdd, neu ar dudalen Trigolion Tal-y-bont ar 'Facebook', am y newyddion diweddaraf, neu cysylltwch â'r Warden, Catrin Hobson (07881 802 882).

Yn y cyfamser, rydym yn gallu ymuno gyda'n gilydd, a gydag aelodau eglwysi eraill Bro Ogwen, yn ysbrydol pob bore Sul oddeutu 10.15 yn ein cartrefi ein hunain i oleuo canwyll, darllen darn o'r Ysgrythur, dweud gweddïau o'n llyfrau gweddi, a defnyddio'r deunydd mae'r Deon Bro mor garedig ag anfon atom.

**Modurdy Central**
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Ymgymerwr adeiladu a gwaith saer
**Ronald Jones**
Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 298763



# Cyfle i weithio efo'r Bartneriaeth

Fel byd nifer ohonoch yn gwybod, mae Partneriaeth Ogwen wedi bod yn cyflogi Fflur Puw fel prentis datblygu cymunedol yn ystod 2020 fel rhan o brosiect Llechi, Glo a Chefn Gwlad. Gyda chefnogaeth y Rank Foundation a'r Loteri Genedlaethol, bydd cyfle i unigolyn arall weithio efo ni am flwyddyn yn 2021.

Mae hwn yn gyfle gwych i ddatblygu sgiliau ymarferol o weithio yn y maes datblygu cymunedol a bod yn rhan o gynllun cenedlaethol. Yn ystod 2020, rydym wedi gweithio efo mentrau cymdeithasol ar draws Cymru fel rhan o'r prosiect ac mae Fflur wedi cael cyfleoedd i wneud gwaith prosiect efo busnesau ac ysgolion lleol. Mae hi hefyd wedi bod yn arwain ar farchnata Siop Ogwen a chrefftwyr lleol.

Yn 2020, bydd y prentis newydd yn helpu Partneriaeth Ogwen i ddatblygu Cadwyn Ogwen, ein platfform gwerthu cynnyrch lleol. Yn ogystal â chyflog byw, bydd y prentis newydd yn cael hyfforddiant i ddatblygu eu gyrfa.

Meddai Meleri Davies, Prif Swyddog y Bartneriaeth: "Mae Partneriaeth Ogwen yn falch o allu cynnig cyfleoedd gwaith i bobl leol a bydd prentisiaeth Llechi Glo a Chefn Gwlad 2021 yn gyfle gwych i rywun gael profiad ymarferol o weithio i fenter gymdeithasol sy'n tyfu.

"Dwi'n falch iawn o'r gwaith mae Fflur wedi ei gyflawni yn ystod 2020 a chyfraniad y swyddogion Byw a Bod fu'n gweithio efo ni dros yr haf. Mae'n bwysig i ni fel sefydliad ein bod ni'n gallu helpu i greu to newydd o ddatblygwyr cymunedol yn Nyffryn Ogwen."

Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch efo meleri@ogwen.org

## BYW A BOD

Ym mis Awst penodwyd Elin Cain fel un o bedwar Swyddog Byw a Bod drwy gynllun Arloesi Gwynedd Wledig.

Ei rôl oedd ymgynghori ar brosiect datblygu Canolfan Cefnfaes. Cafwyd adborth gwych i'r holiadur gyda dros 150 o ymatebion, ac mae'r canlyniadau yn bositif iawn. Yn ogystal, cafodd Elin a Cynan Jones, rheolwr y prosiect, y cyfle i sgwrsio ar raglen Bore Cothi am ddyfodol Cefnfaes, cymuned Bethesda ac am waith Partneriaeth Ogwen yn y gymuned.



Elin Cain

Dywedodd: "Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i bawb am roi eu hamser i lenwi'r holiadur, ac edrychwn ymlaen at rannu mwy o newyddion am Ganolfan Cefnfaes yn fuan."

## TRYSORAU COLL

Mae Siop Ogwen wedi cyd-weithio hefo Cadi un o swyddogion Byw a Bod i hyrwyddo cyfrol newydd J. Elwyn Hughes, Trysorau Coll.

Fel rhan o'r gwaith i hyrwyddo'r gyfrol, cynhaliwyd cyfweliad rhwng yr awdur a Ieuan Wyn. Bydd fideo o'r cyfweliad yn trafod y gyfrol yn cael ei gyhoeddi ar gyfrifon Facebook y Bartneriaeth yn fuan.

Mae'r gyfrol yn sicr o fod o ddiddordeb i unrhyw un sy'n ymddiddori mewn llenyddiaeth a barddoniaeth Gymraeg. Mae'n gyfraniad pwysig arall gan J. Elwyn Hughes i'n hymwybyddiaeth a'n hadnabyddiaeth o Caradog Prichard.

Os hoffech archebu copi o Trysorau Coll neu lyfrau Cymraeg eraill, ebostiwch siop@ogwen.org neu dewch draw i'r Siop.



Bydd y cyfweliad i'w gweld ar gyfrif Facebook y Bartneriaeth

## DATHLU'R 200

Mae hi'n ddigon posib bod darllenwyr Llais Ogwan yn ymwybodol o ben-blwydd arbennig Bethesda yn 200 oed eleni.

Mae Partneriaeth Ogwen, ynghyd â phartneriaid eraill yr ardal, wrthi'n gweithio ar ddatblygu cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau i'w cynnal y flwyddyn nesaf er mwyn dathlu'r achlysur.

Un o'r prosiectau hynny fydd creu arddangosfa weledol o fywyd ym Methesda yn ystod y 200 mlynedd diwethaf. Wrth ddefnyddio lluniau, atgofion, hanesion a straeon trigolion lleol, rydym yn gobeithio llunio arddangosfa fydd yn cael ei ddehongli trwy lygaid yr unigolion sy'n byw yn yr ardal. Prosiect perffaith ar gyfer misoedd y gaeaf! Mwy o wybodaeth yn fuan.

Yn y cyfamser, mae digon o ddarllen difyr am hanes yr ardal yma gan John Ll. Williams a Lowri W. William: www.hanesdyffrynogwen.wordpress.com

## CLWB DARLLEN

Mae Clwb Darllen Dyffryn Ogwen wedi ei sefydlu ers dros fis bellach, ac mi rydan ni ar ein hail lyfr erbyn hyn, sef 'Iaith y Nefoedd' gan Llwyd Owen.



Cadi Roberts

Cafodd y gwaith o sefydlu'r clwb ei gydlynu gan Cadi Roberts, un o swyddogion Byw a Bod y bartneriaeth.

Meddai Cadi: "Ein llyfr cyntaf oedd 'Un yn Ormod' a olygwyd gan Angharad Griffiths, ac mi rydan ni eisoes wedi cynnal sgwrs lwyddiannus yn trafod y llyfr rhwng Angharad a Gwen Ellis, ac wedi cynnal ein cyfarfod Clwb darllen cyntaf!"

Bydd manylion pellach am y Clwb Darllen yn cael ei rannu ar ein tudalen Facebook.

## HOLIADUR

Mae Lisa Tomos wedi bod yn gweithio ar greu holiadur fydd yn creu dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig i bobl Dyffryn Ogwen ac i drigolion lleol gael dweud eich am ddyfodol eich ardal.

Meddai Lisa: "Dwi wedi byw yn Nyffryn Ogwen ers oni'n blentyn ac mae'n bwysig i mi mod i'n gallu rhoi nôl i'r gymuned yma drwy ddefnyddio a chyfrannu'r sgiliau sydd gennai mewn anthropoleg ac ymchwil a chael effaith ar brosiectau y bydd Bartneriaeth Ogwen yn ei datblygu.

"Mae canlyniadau ymchwil fel hyn hefyd yn galluogi i ni dracio a gweld effaith prosiectau ar gymuned dros gyfnod o amser ac i weld os yw prosiectau yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned.

"Os nad ydych chi wedi llenwi'r holiadur yn barod, mi fuaswn yn ddiolchgar os allwch chi gymryd yr amser i'w lenwi!"

I ddweud eich dweud, ewch i: https://forms.gle/aXxWyPzvDW2PTnqv6

## TREFNIADAU'R SWYDDFEYDD

Mae Swyddfeydd Partneriaeth Ogwen yn 26 a 27 Stryd Fawr, Bethesda yn parhau i fod wedi cau i'r cyhoedd oherwydd Covid-19. Mae'n holl staff yn gweithio o adref yn bennaf gyda chyfnodau achlysurol yn y swyddfa. Ar sail asesiad risg diweddar, cytunwyd i gadw'r swyddfeydd ar gau er diogelwch staff. Diolch i chi gyd am eich dealltwriaeth.

# Llandygái

**Iona Wyn Jones,** Dyma Fo,
16 Pentref,
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280

**Eglwys Sant Tegai, Llandygai**
**Dymuniadau gorau**
Cyfarchion i bawb yn ein plwyf ac i ddarllenwyr y Llais! Gobeithio, unwaith eto, eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Braf clywed fod Pauline Edwards, Sylvia Humphreys, Liz Jones a Pat Jones ar y ffordd i wella.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn fel cynulleidfa â'r Hybarch Mary Stallard, ein Harchddiacon, ar golli ei thad oedd hefyd yn offeiriad yn yr Eglwys yng Nghymru. Mae Mary wedi bod yn ddiwyd yn ei gofal ohonom dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Criw y Fynwent**
Diolch i John Bagnall, Martin Brown ac Alan Radcliffe am eu gwaith caled yn y fynwent. Mae'r tri wedi bod yn brysur yn clirio a thwtio o gwmpas y safle yn barod ar gyfer y gaeaf. Mae'r eglwys yn ffodus iawn i gael gwirfoddolwyr mor ddygn yn eu gofal o'n treftadaeth.

**Ysgol Llandygai**
Mae aelodau o'r eglwys sydd ar y bwrdd llywodraethol yn dymuno yn dda i bawb yn Ysgol Llandygai, ein ysgol eglwys, ar ddechrau tymor ac yn diolch yn arbennig i'r Pennaeth Mr Elfed Morgan Morris a'r holl staff am eu gwaith caled i baratoi yr ysgol am yr ail-agor ar ôl y Clo Mawr. Cynhaliwyd cyfarfod rhithiol cyntaf y llywodraethwyr ar y wê ym mis Medi. Profiad newydd i ambell un ohonom!

**Casgliad**
Diolch i bawb sydd wedi gyrru'r casgliad wythnosol i'r Trysorydd neu wedi parhau gyda'u taliadau i'r eglwys drwy'r banc. Gwerthfawrogir pob cyfraniad ariannol i'r eglwys gan y Wardeiniaid. Nid yw'n bosib, wrth gwrs, cynnal unrhyw weithgaredd i godi arian ychwanegol yn ystod yr argyfwng Cofid-19. Os dymunir mwy o wybodaeth, gellir cysylltu á Warden y Ficer, Ann E. Williams, Llwyn Coed Llanllechid, Bangor LL57 3EF. Rhif ffôn 01248 600719.

**Gwasanaethau Sant Tegai Llandygai**
Yn ystod cyfnod anodd y coronafeirws, mae aelodau'r gynulleidfa yn cadw mewn cysylltiad clos drwy ebost ychwanegol yn ystod yr argyfwng ac yn ymuno pob dydd Sul am 10.15 mewn cydweddi ddistaw yn y tŷ gydag eglwysi eraill Bro Ogwen. Croeso i chi oleuo cannwyll, darllen darn o'r Beibl neu fyfyrdod a dweud gweddi gyda ni. Mae Warden y Ficer yn anfon deunydd addoli yn wythnosol drwy ebost. Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Deon Gwlad, Y Parchedig Lloyd Jones, Clynnog 01286 660656 neu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno ynglŷn ag unrhyw fater arall.

Contractwyr Trydanol
**Jones & Whitehead Cyf**

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

ECA CHAS

# Glasinfryn a Chaerhun

**Gwellhad Buan**
Mae amryw o'r ardal wedi bod yn yr ysbyty dros y misoedd diwethaf, cofiwn atynt i gyd a phob dymuniad da am adferiad buan.

**Cydymdeimlad**
Ar 18 Medi bu farw Gwynfor Rowlands Roscoe, 45 Bro Infryn, Glasinfryn yn Ysbyty Glan Clwyd. Cydymdeimlwn a'i wraig Susan, y plant, Meirion, Darren, Ceri a Sioned a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Dymuniadau gorau i bawb o blant y fro sydd wedi dychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfnod clo, hefyd i'r rhai wedi symud i ysgolion uwchradd. Gobeithio eich bod i gyd yn hapus o fod yn ôl ac wedi setlo i mewn i fywyd ysgol unwaith yn rhagor!

# Pentir

**Diolch**
Dymuna Cynrig a Carys, Rallt Uchaf ddiolch i'r teulu a ffrindiau am eu cyfarchion ar ddathliad eu priodas aur ym mis Awst.

**Tafarn y Faenol**
Mae'r dafarn ar werth ar hyn o bryd fel tŷ rhyddfraint drwy asiantaeth Fleurets o Fanceinion. Tybed oes diddordeb yn lleol gan un o drigolion yr ardal neu awydd gan y gymuned i'w ddatblygu yn ased i'r ardal leol a gallai fod yn ganolbwynt i weithgareddau cymunedol a'r diwydiant lletygarwch.

## Cystadleuaeth Garlleg Moriarty Thomas

Mae Christine a Gwyn, Douglas Arms, yn diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r gystadleuaeth yn 2020. Fel yr adroddwyd yn rhifyn Medi o'r Llais, 11 oedd wedi mentro a Kevin Hughes, adnabyddus i bawb fel Kevin Mac, oedd yr enillydd, ac fe roddodd ef y pres a godwyd, sef £125, i Gylch Meithrin Tregarth. Cystadleuaeth y flwyddyn nesaf: Garlleg erbyn 2021: Early Purple Wight, Solent Wight a Carcassonne. Nid yw'r Douglas am werthu garlleg eleni a gofynnir i unrhyw un sydd â diddordeb i brynu trwy wefan ee Simply Seed.
**Diolch yn fawr i bawb!**

PEN Y CEUNANT ISAF
Y BWTHYN TÉ
www.snowdoncafe.com

Llwybr Yr Wyddfa
Llanberis
LL55 4UW

01286 872 606



## Y Gerlan

**Caren Brown**, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST. ☎ 01248 602509 / 07789 916166 carenelaine@hotmail.com

**Linda Brown**, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. ☎ 01248 601526

**Diolch**

Hoffai Jennie Jones, Bryn Caseg (Jini Waen) ddiolch o galon am y llu o gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 90. Fe ddathlwyd yr achlysur yn nhŷ ei merch Helen a'i gwr Dafydd yn Rhosybol, gyda'i theulu i gyd ar ddiwrnod braf ym Mis Awst.

**Colled**

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Hyw Post (Williams). Roedd Hyw yn frawd i'r diweddar Len, Benny a Betty ac yn dad annwyl i Anwen. 'Roedd hefyd yn frawd yng nghyfraith i Helen Dolgoch a fu farw ym mis Awst eleni. Cafodd ei fagu yn yr hen bost yn Gerlan ond symudodd i fyw i Llanfair PG cyn mynd i gartef preswyl. Claddwyd ei lwch efo Jean ei wraig ym Mynwent Coetmor. Gyrrwn ein cydymdeimlad at y teulu i gyd.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Nia Thomas a'i phartner Gerallt o Giltrefnus ar enedigaeth eu merch fach, Mia, ar 30 Awst. Llongyfarchiadau hefyd i Kathy a Brian ar ddod yn nain a thaid unwaith eto.

**Colli Gwasanaeth Bysiau**

Nid ydym yn y Gerlan wedi cael gwasanaeth bws ers cychwyn y clo mawr ym Mawrth - ar wahân i wasanaeth Dilwyn's Coaches ar ddydd Sul, sydd wedi ail-gychwyn yn ddiweddar. Roeddem yn llwyr ddeall hynny, ac yn ei dderbyn. Fodd bynnag, siom fawr i drigolion y pentref yw deall yn awr mai bwriad Arriva yw dileu pob gwasanaeth, ar wahân i un wyth y bore o'r pentref a 3.30pm y prynhawn o Fangor, a'r rheiny'n unig ar gyfer disgyblion yr ardal sy'n mynychu ysgolion Bangor.

Mae hynny'n gadael trigolion y pentref heb wasanaeth, ac yn gorfodi y rheiny sydd angen gwasanaeth bws i gerdded i lawr i, ac i fyny i Gerlan o Fethesda, a hynny ym mhob tywydd. Mae'r cynghorwyr lleol, ynghyd â'r Aelod Seneddol, Hywel Williams, ac Aelod Senedd, Sian Gwenllian, mewn trafodaethau gyda chwmni Arriva i geisio datrys y sefyllfa hon.

Nid ydym yn credu fod y sefyllfa hon yn dderbyniol o gwbl, ac mae'n mynd i achosi trafferthion mawr, yn arbennig, felly, i'r rheiny nad oes ganddynt geir, ac yn dibynnu ar y gwasanaeth bws.

Dywedodd y cynghorydd cymuned lleol, Ann Williams: "Gobeithiwn yn arw y bydd y trafodaethau gyda'r cwmni yn dwyn ffrwyth, ac y cawn weld gwasanaeth bws rheolaidd yn y Gerlan unwaith eto. Rydym yn diolch i bawb am eu hymdrechion i newid meddwl cwmni Arriva."

## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, 13 Hen Barc, Llanllechid, Bangor, LL57 3RS. 01248 605582 a 07887624459 henbarc13@gmail.com

**Cydymdeimlad**

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Dafydd, Annwen, Iona a'r teulu (2 Bryn Eglwys, Llanllechid) yn eu profedigaeth o golli Caryl yn ystod mis Awst.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i deulu a chyfeillion yn eu profedigaeth o golli Gerallt Price Roberts, Pont Llan, Llanllechid yn ystod mis Awst.

Cydymdeimlwn â theulu Ben Richards a gafodd ei gladdu ym Mynwent Eglwys Coetmor yn ddiweddar. Er ei fod yn byw ym Methesda byddai'n dod i Gapel Carmel ar gyfer bron pob oedfa gymun.

**Diolch**

Dymuna Steven Williams (15 Hen Barc gynt) a Bethan ei wraig ddiolch am yr holl gyfarchion, cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch fach Alys Mair Williams.

Llongyfarchwn Jean Northam, Llwyn Bedw a ddathlodd pen-blwydd 80 oed ym mis Medi. Deallwn na fydd oedfaon yng Nghapel Carmel am dri mis ond y bydd y capel ar gael ar gyfer angladdau a phriodasau preifat trwy wahoddiad, er mwyn cydymffurfio gyda chyfyngiadau'r llywodraeth.





MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
Perchennog A. Ll. Williams
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN
☎ 600723
Ffacs: 605068

Cerbydau Penrhyn
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072
Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau
Contractwyr i Wasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru




Modurdy Central
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031



# ‘Un yn Ormod’ - trafod dibyniaeth ar alcohol yn y Gymru Gymraeg

Yn ôl ymchwil gan Alcohol Change UK mae chwarter oedolion Cymru wedi cynyddu faint o alcohol maent yn ei yfed yn ystod cyfnod y Clo Mawr, gyda gwerthiant diodydd meddwol wedi neidio i fyny 31% yn ystod mis Mawrth eleni.

Mae'r gyfrol newydd ‘Un yn Ormod’ a olygwyd gan Angharad Griffiths o Ddyffryn Ogwen yn un amserol felly ac yn gobeithio agor y drafodaeth o berthynas unigolion gydag alcohol ac yn cynnig cymorth drwy'r Gymraeg ar bwnc sensitif iawn.

“Dydi bod yn gaeth i alcohol ddim yn rhywbeth du a gwyn,” meddai Angharad.

“Y cwestiwn sydd angen ei ofyn ydi: nid ydi faint dwi'n ei yfed yn ormod, ond ydi faint dwi'n ei yfed yn fy neud i'n anhapus.”


Rhannodd Angharad ei stori bersonol hi am stopio yfed alcohol.

Meddai: “Mi nath alcoholiaeth ddwyn fy nghefnder a'm ffrind Gareth ‘Chef’ Williams yn 39 oed – ac mae'r gyfrol yma er cof amdano fe. Y mwya o straeon sobri sydd mas yna, mae'n rhoi gobaith i'r bobl sydd yn dal i ddiodde' – neu'n dechrau sylweddoli bod alcohol yn achosi problemau yn ei bywydau,” meddai Angharad.

Mae ymgyrchoedd diweddar blynyddol fel Sober October a Sober January wedi codi ymwybyddiaeth pobl am faint maen nhw'n ei yfed ond nid peth hawdd ydi dinoethi'r pwnc pan mae stigma'n dal i fodoli.

“Mae angen dewrder eithriadol i ysgrifennu am y profiadau yma ac rwy'n falch iawn o'r holl gyfranwyr am fod yn fodlon siarad yn agored. I feddwl faint mae'r Cymry yn yfed does dim llawer o lyfrau yn y Gymraeg yn delio gyda hyn!” meddai Angharad Griffiths.

Mae'r gyfrol yn cynnwys cyfraniadau gan Ffion Dafis; Angharad Griffiths, Derith Rhisiart, Guto Rhun, Wynford Ellis Owen, Iola Ynyr, Lloyd Jones, Owain Williams, Rhiannon Boyle, Iwan ‘Topper’ Evans, Carol Hardy, Jon Gower, Neil ‘Maffia’ Williams ac Elin Meredydd.




Mae ‘Un yn Ormod’ gan Y Lolfa ar gael yn y siopau




**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

**williamshy@parliament.uk**


# Atgyfodi'r Wennol

Beth wnaethoch chi yn ystod y cyfnod clo? Dyna fydd ein gorwyrion yn gofyn i ni yn y dyfodol pell.

Dw i'n darllen yn y papurau bod rhai wedi sefydlu gwefannau newydd a chreu busnesau i werthu pethau maen nhw'n cynhyrchu yn y tŷ. Rhai wedi penderfynu dysgu iaith newydd, llawer wedi dewis Cymraeg i ddysgu. Diolch a phob lwc iddyn nhw. Eraill yn ail afael ar y grefft o goginio neu gerdded mwy, o fewn y rheolau wrth gwrs.

**Beth dach chi wedi gwneud?**

Y peth cyntaf wnes i oedd archebu llyfrau, tua hanner dwsin. Llawer digon i fy nghadw i fynd dros y tair wythnos roedd y cyfnod yn mynd i barhau. Yr unig beth allaf fi ddweud yw roedd y tair wythnos yna braidd yn hir! Er dw i wrth fy modd yn darllen ni allaf eistedd mewn cadair a darllen am fwy nag awr a hanner heb ddechrau pendwmpian. Beth arall allwn i wneud? Yn raddol ddoth y syniad i fy mhen o atgyfodi cylchlythyr i ddysgwyr roeddwn i wedi sefydlu tuag ugain mlynedd yn ôl.

Yn fy siwrne hir yn ôl at yr Iaith es i ar gwrs ysgrifennu Cymraeg creadigol yng Nghanolfan Iaith Gregynog. Roedd y profiad yn bwysig iawn, ces i'r cyfle i siarad Cymraeg yn rheolaidd ac yn y pendraw ces i'r cyfle i fod yn diwtor. Sylweddolais fod addysgu yn ffordd effeithiol iawn er mwyn dysgu.

Yn ystod fy nghyfnod ar y cwrs roedd Gregynog yn cael warden newydd, un ddi-Gymraeg ac roedd pobl yn poeni am ddyfodol y Ganolfan Iaith. Mi wnaeth rhai ohonom ni sefydlu Cyfeillion Canolfan Iaith Gregynog a chan roedd gen i fusnes argraffu ar y pryd nes i sefydlu cylchlythyr o'r enw Y Wennol. Gan roeddwn i ar gwrs ysgrifennu Cymraeg creadigol roedd llawer o bobl i gyfrannu ac roedd tiwtoriaid yn anfon gwaith eu dysgwyr ataf fi. Aeth Y Wennol ymlaen am ychydig o flynyddoedd tan i mi symud i fyw yn Abertawe er mwyn fod yn agosaf at fy rhieni. Efo'r dechnoleg wedi symud ymlaen roeddwn i'n teimlo'n ffyddiog roeddwn i'n gallu atgyfodi'r Wennol.

Ychydig o fisoedd ynghynt roeddwn i wedi cyfarfod â grŵp o ddysgwyr a oedd yn cyfarfod yng Nghaffi'r Three Cliffs yn wythnosol. Gofynnais iddyn nhw a fydden nhw'n fodlon ysgrifennu erthyglau a ches i ddigon i gael y rhifyn cyntaf allan erbyn diwedd y mis. Erbyn hyn mae chwe rhifyn wedi gweld golau dydd ac mae pedwar o ddysgwyr yn cyfrannu'n gyson. Mae'r profiad o ysgrifennu yn un werthfawr iawn i ddysgwyr, mae'r ffaith bod nhw'n treulio amser i roi eu meddyliau at ei gilydd i ysgrifennu yn datblygu ei sgiliau siarad hefyd.

Mae hynny yn rhoi hyder iddyn nhw a lleihau'r pwysau arnyn nhw pan maen nhw'n sgwrsio. Mae'r profiad o roi'r cylchlythyr at ei gilydd pob mis wedi fy atgoffa fi o'r safon mae dysgwyr yn gallu cyrraedd a'u brwdfrydedd i ddefnyddio'r iaith. Dw i'n ail fyw'r pleser roeddwn i'n cael wrth weithio ar Y Wennol wreiddiol.

Felly Cymry Cymraeg neu ddysgwyr mae'n werth darllen Y Wennol, byddwch yn gweld yn syth pa mor dalentog mae dysgwyr yn gallu bod. Mae croeso mawr i unrhyw gyfraniad o unrhyw lefel o ddysgu, ac mi fydda i'n hapus i ddanfon copi i unrhyw un sydd yn cysylltu â fi ar bobwennol@ntlworld.com. Gwnewch hynny rŵan, cyn i chi anghofio!

Pob hwyl
Rob Evans



# Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen)**, 48 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

**Profedigaeth**
Anfonwn ein cydymdeimlad gyda Iona a Guto Williams, Y Fenallt, Tal y Cae, yn eu profedigaeth o golli mam Iona, sef Caryl Jones, 2 Bryn Eglwys , Llanllechid fu farw ar 30 Awst. Roedd Caryl yn wraig i Dids, yn fam i Anwen a Iona, yn nain i Elliw, Elis, Eila ac Elgan ac yn ferch i Rita a'r diweddar Gwilym Evans ac yn chwaer i Bryn. Cofion atoch i gyd fel teulu ar adeg mor drist.

Cydymdeimlwn gyda Branwen a Gwynn Jarvis, Argoed, Siliwen, Bangor, ond a arferent fyw yn Tal y Cae, Tregarth.Bu farw chwaer Branwen, sef Lowri Morgan a chofion atoch fel teulu.

**Capel Shiloh, Tregarth**
Wedi cyfnod o chwe mis ar gau gallwn ddatgan erbyn hyn fod drysau Shiloh wedi ail-agor ers 20 Medi pan ddaeth y Parchedig Eric Jones o Fangor i wasanaethu mewn oedfa fer o hanner awr yn unol a gofynion y feirws.

Diolchwn o galon i Gwmni Glanhau o Borthaethwy am ddod i ofalu fod y Capel yn dilyn y canllawiau glendid angenrheidiol ac am eu gwaith ardderchog.

Barn amryw yn y gynulleidfa oedd pa mor braf oedd gweld y drysau ar agor unwaith eto.

Hyfryd oedd gweld cynifer wedi dod i'r oedfa er fod cyfyngiadau ar y nifer all fod yn bresennol.


Byddwn yn edrych yn fanwl sut mae'r feirws yn datblygu ac mae rhai Suliau wedi eu llenwi.

Ar 27 Medi bydd y gwasanaeth yng ngofal Ellie Jones, Coed y Parc ac ar 4 Hydref gwasanaethir gan y gweinidog y Parchedig Richard Gillion. Ar 11 Hydref, Ffion Rowlinson fydd yng ngofal yr oedfa.

Nid yw trefniadau y Diolchgarwch wedi eu cwblhau ar hyn o bryd ond bydd gair ar Fwrdd Newyddion y Capel ymlaen llaw yn datgan pryd fydd y gwasanaethau pellach.

# Dot-dot

Tybed pwy sy'n cuddio tu ôl i'r dotiau? Tynna linell rhwng y rhifau i ganfod pwy neu beth sydd yna.



**SIOP OGWEN**
33 Stryd Fawr, Bethesda

Peidiwch anghofio am Siop Ogwen. Galwch draw!

Anrhegion a chrefftau lleol, Cardiau, Llyfrau, Coffi Poblado, Jam Cartra, CDs, Lluniau, Gemwaith, Sebon, Canhwyllau, Dillad, Golwg, Y Cymro, Llais Ogwan a llawer mwy!

Cewch archebu llyfrau Cyngor Llyfrau Cymru trwy'r siop, neu gylchgronau (e.e. Barn, Mellten, Bore Da, Y Traethodydd, O'r Pedwar Gwynt ayyb) a CDs hefyd.

Ar agor ddydd Mercher (10-2), Dydd Iau /Gwener (10-5) a dydd Sadwrn (10-3).

siop@ogwen.org

**01248 208 485**

**SAMARIAID**
Mae
**Llinell Gymraeg**
0808 164 0123
ar gael bob nos rhwng 7.00pm ac 11.00pm

**Elwyn Jones & Co**
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni (01248) 723106*
*Porthaethwy (01248) 719517*
*Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616*
*Pwllheli (01758) 703000*

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853

# Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Rhian a Geraint sy'n byw yng Nghaerdydd ar enedigaeth merch fach Awen Haf Richards ym mis Awst. Mae hyn yn golygu bod Lilian a Cemlyn Williams yn nain a thaid am y tro cyntaf a Carwynyn ewythr. Dymunwn yn dda i'r teulu i gyd.

Yr un yw'r llongyfarchiadau i Lowri Mererid a Jasper Eguia, Erw Las ar enedigaeth eu merch fach Ella Grace, ac wrth gwrs i nain a taid Erw Las Cheryl a Derfel Edwards a hen nain Mrs Glenys Edwards yng Nghwlyn, Braichmelyn.

**Ysbyty**
Cofion cynnes at y rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac yn dal i wella wedi iddynt ddod gartref, sef Mrs. Nel Williams, Carneddi a Mrs. Joan Parry, Abercaseg.

**Sâl Gartref**
Mae sawl un yn sâl gartref ac anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da atoch am wellhad buan, sef Mr. Phillip Williams, Allt Penybryn; Mrs. Rita Bullock, Maes y Garnedd; Mr. Joe Evans, Glan Ffrydlas; Mrs. Val Amos, Glanogwen; Mr a Mrs. Thomas Jones, Rhos y Coed.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Mr. Gavin Parry a'r teulu, Rhos y Coed, yn eu profedigaeth o golli modryb, sef Mrs. Eirlys Griffith, Bangor.

Cydymdeimlwn â Mrs. Rita Evans, Erw Las, yn ei phrofedigaeth fawr o golli ei merch, Mrs. Caryl Jones, Bryn Eglwys, Llanllechid, priod David a mam Annwen a Iona, nain Elliw, Elis, Eila ac Elgan, a chwaer Bryn. Cynhaliwyd angladd Caryl ddydd Mawrth, 8 Medi, yn Eglwys Crist Glanogwen a mynwent Coetmor. Yn gwasanaethu roedd y Deon Gwlad, y Parchedig Kathy Jones, ac fe gafwyd teyrngedau gan Avril Rowlands, Rhiannon Sturrs a Bryn Evans.

**Marwolaethau**
*Dewi Wyn Morris*
Yn sydyn yn ei gartref, 2 Arafa Don, ar 24 Awst, bu farw Mr. Dewi Wyn Morris, priod y ddiweddar Mrs. Marjorie Morris a thad Michael, Shirley a Sandra. Tad yng nghyfraith Philip a Nerys, a thaid a hen daid hoffus. Roedd yn frawd i Owain Glyn ac Ann Jeanette. Bu'r gwasanaeth angladdol yn Eglwys Crist Glanogwen ac Amlosgfa Bangor, ddydd Mercher, 16 Medi. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd.

*Susan Eleanor Roberts*
Ar 30 Awst, yn ei chartref, Bronallt, Ty'n y Maes, yn 73 mlwydd oed, bu farw Mrs. Susan Eleanor Roberts, priod annwyl Mr. Eric Roberts, a mam garedig a gofalus i Katie, Richard a Rebecca, a chwaer i Sheila. Roedd Sue yn berson hoffus a charedig, ac 'roedd yn hoff iawn o anifeiliaid. Bu'n athrawes, cyn ymddeol, yn Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Mercher, 9 Medi yn Eglwys Crist Glanogwen ac Amlosgfa Bangor, gyda'r Parchedig Lloyd Jones yn gwasanaethu a Rebecca yn cyflwyno teyrnged. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd.

*Benjamin Richards*
Yn Ysbyty Gwynedd ar 30 Awst, bu farw Mr. Benjamin Richards (Ben), 1 Stryd John, yn 89 mlwydd oed. Priod hoffus y ddiweddar Mrs. Grace Richards, tad annwyl David a thaid i Siôn a Lowri. Roedd yn hen daid i Iwan ac yn frawd i Glyn a Betty. 'Roedd Ben yn adnabyddus i bawb ar y Stryd Fawr ble 'roedd mor barod ei sgwrs. 'Roedd yn aelod ffyddlon o Gapel Carmel, Llanllechid, ac yn mwynhau gêm o Chwist yng Nghanolfan Cefnfaes. Bu ei angladd ddydd Llun, 7 Medi, gyda gwasanaeth ym mynwent Eglwys Coetmor. Ei Weinidog, y Parchedig D. John Pritchard oedd yn gwasanaethu ac fe gafwyd teyrngedau gan y Parchedig Debbie Stammers a'i ŵyr, Siôn. Cydymdeimlwn â chwi i gyd.

*Gwynfor Williams*
Ar 5 Medi, yn ei gartref, 10 Ffordd Ffrydlas, bu farw Mr. Gwynfor Williams, yn 85 mlwydd oed. Priod Mrs. Carol Williams, tad annwyl Barry, Ally a Karen, taid Joshua, Jake, Cai a Gari, a brawd Eirlys, Elfed, Ceinwen, Emlyn ac Elinor. Bu ei angladd ar ddydd Mawrth, 15 Medi, gyda gwasanaeth i'r teulu yn unig yn Amlosgfa Bangor. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu.

**Y Llyfrgell**
Oriau Agor Newydd Llyfrgell Bethesda:
Dydd Llun, 2pm-4pm: Defnydd o'r Cyfrifiaduron yn unig
Bore Mawrth, 10am-12pm: Dewis Llyfrau
Dydd Iau, 2pm-4pm: Dewis Llyfrau
Dydd Gwener, 2pm-4pm: Defnydd o'r Cyfrifiaduron yn unig
Bore Sadwrn, 10am-12pm: Dewis Llyfrau

Mi fydd mynediad trwy apwyntiad yn unig. Bydd rhaid defnyddio diheintydd dwylo, cydsynio i'ch manylion cyswllt cael eu rhannu gydag Olrhain Cysylltiadau a gwisgo gorchudd wyneb.

Ffoniwch 600737 am fwy o manylion neu i wneud apwyntiad.

# Eglwys Crist, Glanogwen

Braf yw cofnodi bod yr eglwys ar agor unwaith eto, er bod hynny oherwydd sawl angladd a gynhaliwyd yn ystod mis Medi. Diolch i'r criw bach ddaeth ynghyd i lanhau'r adeilad a'i pharatoi ar gyfer cynnal y gwasanaethau. Diolch i'r Parchedig Lloyd Jones am gynnal archwiliad asesiad risg a gwneud yn siwr ei bod yn ddiogel.

Gobeithiwn yn fawr gael cynnal gwasanaeth Diolchgarwch yn ystod mis Hydref, er nad yw'r perygl drosodd o bell ffordd lle mae'r Cofid yn y cwestiwn. Gweld be ddaw.

Mae sawl aelod wedi bod dan anhwylder yn ystod yr haf, gobeithio bod pawb yn gwella bellach. Braf yw gweld Mrs Val Amos yn ôl yn ei chartref yng Nglanogwen wedi cyfnod yn yr ysbyty yn y De, gobeithio'n wir y cawn ei gweld yn yr eglwys cyn hir, ynghyd a'r oll o'n aelodau.

Diolch i bawb sy'n cysylltu er mwyn trosglwyddo eu rhoddion i'r Trysorydd, mae Barbara yn fodlon galw heibio i'w casglu unrhyw amser.

Fel arfer, cadwch yn iach, a chofiwch os oes rhywun yn unig neu am gael sgwrs, mae croeso i chwi roi caniad i Glenys ar 600371 neu Barbara ar 600530. Gobeithiwn weld ein gilydd cyn bo hir.

# Plas Ffrancon

Braf gweld fod y giatiau wedi agor i'r cael aml-dywydd newydd ym Mhlas Ffrancon. Mae clybiau lleol eisoes wedi cychwyn defnyddio'r cae sydd wedi ei ddatblygu ar ôl gwaith dros y misoedd diwethaf. Mae croeso i glybiau eraill gysylltu gyda'r ganolfan os am ddefnyddio'r cae, cyhyd a'u bod yn dilyn canllawiau Covid eu corff llywodraethu cenedlaethol.



## Yr Eglwys Unedig

Cyfarchion unwaith eto atoch i gyd, gan obeithio bod hwyliau reit dda arnoch yn ystod y cyfnod hynod o anodd hwn. Anfonwn ein cofion cywiraf at bawb sydd ddim yn mwynhau'r iechyd gorau ar hyn o bryd, boed hynny mewn ysbyty, cartref gofal, neu yn eu cartrefi, a chofiwch adael i ni wybod os oes angen unrhyw gymorth arnoch.

Dyma ychydig o wybodaeth am y Capel yn ystod y mis diwethaf:

**Pwyllgor Blaenoriaid**

Cyfarfu'r pwyllgor dros y ffôn yn ystod mis Medi i drafod ein sefyllfa. Penderfynwyd nad ydym yn ystyried ailagor yr adeiladau hyd nes y bydd glanhau trwyadl ac asesiad risg wedi'u gwneud. 'Rydym wedi cael, ac yn dal i gael, amryw o geisiadau i fynd i mewn i'r Capel ar gyfer gwahanol weithgareddau, ond nid yw'n bosibl i ni ganiatáu hynny ar hyn o bryd. Mae gwaith cynnal a chadw yn dal i fynd ymlaen wrth gwrs, er mwyn gwneud yn sicr bod yr adeiladau'n ddiogel erbyn pan fyddwn yn cael dod at ein gilydd unwaith eto. Yn yr un modd, 'rydym yn edrych ar ôl yr ardd yn rheolaidd.

**Gwasanaeth ar y ffôn**

Cynhaliwyd gwasanaeth ar y ffôn fore Sul, 20 Medi, o dan ofal Menai – hyfryd oedd cael cwmni 30 o aelodau a chyfeillion, a diolch i chi i gyd am gefnogi ein hymgais i geisio 'cadw'r fflam ynghyn.' Cynhelir y gwasanaeth nesaf fore Sul, 18 Hydref, am 10 o'r gloch, o dan arweiniad Mrs Nerys Griffiths, ac yna, fore Sul, 15 Tachwedd, eto am 10 o'r gloch, o dan arweiniad y Parchedig Mererid Mair – cysylltwch ymlaen llaw â Walter ar 01248 601 167 os am ymuno â ni.

**Genedigaeth**

Mae Hannah Bright, sydd yn un o gyfeillion yr Eglwys Unedig, a'i phartner Siôn, wedi cael mab bychan o'r enw Elis. Llongyfarchiadau cynnes iawn, a phob dymuniad da i'r teulu bach, ac i Nain a Taid, sef Heulwen ac Emyr Roberts.

# Penodi Shân yn ohebydd lleol yn Arfon

Mae brodor o Fethesda newydd wedi cael swydd yn ei milltir sgwâr, fel gohebydd gyda Bro360. Bydd Shân Pritchard yn gweithio fel gohebydd lleol i ardal Arfon, gan gyfrannu straeon newyddiadurol i wefannau bro Ogwen360, DyffrynNantlle360, Caernarfon360 a BroWyddfa360.

Dyma holi Shân am dipyn o'i hanes...

**Beth yw'r peth gorau am Ddyffryn Ogwen?**

Heb os, y bobol - mae pobol Pesda'n sdicio hefo'i gilydd bob amser. Mae chips Mabinogion yn ail agos iawn!

**Rwyt ti newydd orffen dy PHD. Beth oedd dy bwnc?**

Testun y traethawd oedd y Gymraeg o fewn y byd digidol, gan edrych ar brofiadau ac agweddau siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd o ddefnyddio apiau Cymraeg neu ddwyieithog. Mae'r byd digidol yn gallu bod yn dirwedd heriol ar gyfer ieithoedd bach y byd ond gall hefyd ddarparu cyfleoedd newydd, cyffrous i iaith.

**A fydd elfennau o'r radd yn dy helpu yn dy swydd newydd?**

Yn sicr, mae cynnal yr astudiaeth hon wedi gosod sylfaen gadarn i mi gychwyn ar fy swydd newydd. Mae gen i syniad da o ddyheadau siaradwyr Cymraeg wrth greu cynnwys ar-lein ac o'r angen i'r Gymraeg fod â phresenoldeb cadarn yn y byd digidol.

**Pam bod newyddion lleol yn bwysig?**

Drwy adrodd ar newyddion lleol gallwn gynyddu'r ymdeimlad o gymuned a pherthyn, sydd i mi, yn fwy pwysig nag erioed.

**Beth yw dy obeithion ar gyfer dy wefan fro di – Ogwen360?**

Hoffwn i Ogwen360 fod yn blatfform agored er mwyn rhannu llwyddiannau, digwyddiadau a straeon lleol ac i fod yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer holl aelodau'r gymuned arbennig hon.

A 3 chwestiwn bach sydyn...

**Llyfr nodiadau neu sgrin?**

Mae'n rhaid i mi gyfaddef - mi ydw i'n ffan mawr o lyfr nodiadau!

**Pa fath o swydd fyddet ti'n ei chasáu?!**

Ar ôl treulio'r flwyddyn diwethaf yn adnewyddu tŷ, mi fyswn i'n gwneud plastrwr gwael iawn yng nghanol yr holl lwch. Ych!

**Beth yw'r peth mwyfa heriol am gyfnod Covid?**

Hiraeth!

Pob hwyl i Shân yn ei swydd newydd sbon. Cofiwch, ochr yn ochr â straeon newyddiadurol gan Shân a gweddill tîm golwg360, mae lle i chi rannu eich straeon, eich profiadau a'ch dyheadau ar Ogwen360 – gwefan fro pobol y Dyffryn.



Shân Pritchard, gohebydd newydd gyda Bro360




I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853

# Ysgol Llanllechid



**Croeso'n ôl**
Croesawn ein disgyblion a'u teuluoedd yn ôl i Ysgol Llanllechid, i wynebu trefniadau tra gwahanol y mis Medi hwn. Rydym yn parhau i weithredu yng nghysgod Covid 19, ac yn ddiolchgar iawn i'r rhieni am eu cydweithrediad parod, wrth i ni ymateb i'r holl ofynion newydd. Croeso cynnes i chi i gyd, a chroeso arbennig i'n disgyblion Meithrin, ac i'r disgyblion hynny sydd wedi trosglwyddo atom ar draws yr ysgol.

**Penodiadau**
Croeso cynnes i Mr Llywelyn, sydd yn gweithio fel athro yn yr Adran Iau. Mae'n bleser cael cydweithio hefo Mr Llywelyn! Croeso hefyd i'r cymorthyddion sydd wedi ymuno hefo ni o'r newydd, sef Ms Chloe Simmonds, Mr Iwan Jones a Ms Lois William; y tri ohonynt yn gaffaeliad mawr i'n tîm!

**I Gofio'n Annwyl am Ms Lliwen**
Ar Fedi 23, roeddem yn cofio am Ms Lliwen, gan fod y diwrnod hwn yn dynodi ei phen-blwydd yn ddeugain oed. Anfonwn ein cofion cynhesaf at y teulu i gyd, yn eu hiraeth, o fod wedi colli gwraig ifanc, oedd mor arbennig. Anfonwn ein cofion cynhesaf atoch fel ysgol.

**Gwellhad Buan**
Anfonwn ein cofion at ŵr Mrs Macdonald, Mr Alick Macdonald a dderbyniodd driniaeth yn ddiweddar yn yr ysbyty. Dymunwn wellhad buan hefyd i Mrs Macdonald ac edrychwn ymlaen at eich crosawu yn ôl i'r gwaith yn y gegin yn fuan.

**Capsiwl Amser**
O dan yr hen gabanau pren roedd capsiwl amser wedi ei greu gan ddisgyblion Mr Huw Edward Jones a Ms Hanna Huws ar 5 Mai 2005, sef dyddiad yr etholiad cenedlaethol, pan gafodd Tony Blair ei ethol am y trydydd tro. Dyna hwyl oedd cael agor y capsiwl a chraffu ar ei gynnwys!

Roedd rhai o'r disgyblion wedi ysgrifennu darnau yn 2005 o dan y teitl "Goriad Fy Nyfodol" oedd yn rhagfynegi beth fyddent yn ei wneud i'r dyfodol. Dyma ddywedodd **Hedd Lewis Roberts**, disgybl Bl 6 ar y pryd: "Gwelaf fy nheulu yn hapus yn Pesda Roc yn yfad coca cola, bwyta cwn poeth a byrger...Teimlaf handlan drws fy nhŷ yn Ffarm Corbri, lle ydwi'n byw hefo fy ngwraig a fy mhlentyn. Clywaf fy ffrindiau yn Chwarel Penrhyn yn chwerthin, a dwi'n gweithio yno."

Meddai **Lois Eluned Williams**: "Dwi'n eistedd hefo fy nheulu yn Dinas Dinlle, yn bwyta sglodion. Gwelaf fy hen ffrind ysgol Zoe, gyda ei phlentyn bach! Mae fy mhlentyn bach i yn chwarae yn y dŵr. Gwelaf fy hun yn teithio yn y car i Ysgol Llanllechid i wethio."

Wrth edrych i'r dyfodol, meddai **Llinos Mai Hughes**: "Dwi dal i fyw yn Pesda efo fy nghariad. Dwi'n byw mewn bwthyn bach hardd a blodeuog, ac mae pwll nofio yn yr ardd."

Meddai **Llinos Bolton**: "Gwelaf fy hun yn chwarae rygbi i Fethesda a fi ydi'r capten! Yn y tîm hefyd mae Gwenllian, fy ffrind gorau. Dwi yn nyrs i blant yn Ysbyty Gwynedd."

**Caban Ogwen**
Do, cyrhaeddodd y cabanau newydd sbon yn ystod gwyliau'r haf;ac roedd hi'n syndod eu gweld yn hongian yn yr awyr, wrth gael eu cludo i'w lleoliad newydd ym mhen draw'r buarth! Dyma'r ddarpariaeth newydd ar gyfer y Cylch Meithrin, Clwb Cinio a'r Clwb ar ôl Ysgol. Am fwy o fanylion cysylltwch â 07786855333.

**Llyfr Mawr y Plant**
Mae rhai o'r plant ieuengaf wedi bod yn hynod brysur yn darllen ac astudio Llyfr Mawr y Plant. Dyna hwyl a gafwyd yn gwneud ffisig i Wil Cwac Cwac!






**Y Chwalfa Fawr**
Yn ystod gwyliau'r haf cafodd yr hen gabanau, oedd wedi bod yn rhan annatod o'r ysgol ers yr holl flynyddoedd, eu dymchwel. Ac, oedd, roedd hi'n chwalfa fawr!!



**Siân Gwenllian**
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

# Ysgol Tregarth

**Croeso nôl**
Croeso mawr i bawb ar ddechrau blwyddyn ysgol. Edrychwn ymlaen at gael blwyddyn lwyddiannus arall yng nghwmni ein gilydd.

Croeso cynnes i'r 11 o blant sydd wedi cychwyn gyda ni yn y dosbarth Meithrin. Mae'n bleser eu gweld yn cyrraedd yr ysgol mor hapus bob prynhawn. Croeso mawr hefyd i'r 15 plentyn sydd wedi cychwyn yn y dosbarth Derbyn. Maent yn mwynhau cael dod i'r ysgol trwy'r dydd ac wedi setlo yn arbennig o dda.

**Fy ffrindiau a fi**
Thema Meithrin a Derbyn yw 'Fy ffrindiau a fi'. Rydym yn edrych ymlaen at gael dysgu mwy am ein gilydd, y corff a'r synhwyrau. Mae'r plant hefyd yn edrych ymlaen at gael chwarae rôl ym meddygfa'r dosbarth.

**Croesawu aelod o staff**
Croeso cynnes i Miss Tracy Griffith i Ysgol Tregarth. Mae Miss Tracy Griffith yn dod atom i ddysgu dosbarth Ffrydlas, sef Blwyddyn 4, 5 a 6. Rydym yn siŵr y bydd yn hapus iawn yn ein plith.


**Archwilwyr Cymuned**
Thema blwyddyn 1 a 2 yn ystod y tymor yma yw 'Archwilwyr Cymuned'. Mae'r plant wedi bod yn trafod ac yn llunio'r hyn sydd yn yr ardal leol, yn cymharu cartrefi ac wedi bod yn archwilio ac yn arbrofi ar dir yr ysgol. Mae'r plant yn edrych ymlaen at ddatblygu eu sgiliau mapio dros yr wythnosau nesaf.

**Ar eich Marciau**
Braf iawn oedd croesawu dosbarth Ogwen, a gweddill y dosbarthiadau, yn ôl i'r ysgol mis diwethaf. Bu rhai yn dychwelyd yn ôl i'r ysgol am y tro cyntaf ers chwe mis. Erbyn hyn, mae pawb wedi setlo yn eu dosbarth newydd ac wedi dod i arfer gyda'r drefn ddyddiol newydd. Rydym wedi cychwyn ar ein thema 'Ar eich marciau' yn ystod yr wythnos diwethaf. Bwriad y thema yw rhoi cyfleoedd i ddysgwyr edrych yn bositif arnyn nhw eu hunain fel unigolion, fel aelodau o'u dosbarth, eu teulu, eu cymuned a'r byd. Mae'n canolbwyntio ar ddatblygu eu pwerau dysgu a meddwl yn bositif. Rydym wedi bod yn brysur yn creu cymeriadau i gyd-fynd a'r pwerau dysgu, dysgu am y niwronau a sut maen nhw weithio i wneud ein hymennydd ni dyfu a pa mor bwysig ydi hi i fownsio yn ôl ar ôl gwneud camgymeriadau.

**Y Ddaear a'r Gofod**
Mae dosbarth Ffrydlas wedi bod yn brysur iawn yr wythnosau diwethaf yn dysgu ffeithiau am y Ddaear a'r gofod! Rydym yn edrych ymlaen i ddysgu mwy o bethau diddorol wythnos nesaf gan ei bod hi'n 'World Space Week', ble byddem yn cael cyfle i wneud arbrofion gwyddonol ac ychydig o waith peirianneg.

**Gweithdy 'Robotics'**
Cawsom brofiad gwych yr wythnos hon. Bu dosbarth Ffrydlas yn cymryd rhan mewn gweithdy 'Robotics' wrth ddefnyddio adnoddau 'Lego Mindstorm'! Roedd y plant wedi mwynhau yn arw wrth adeiladu'r robotiaid ac yn datrys problemau. Gwaith arbennig blantos!





Gweithdy 'Robotics'

# gair neu ddau

**John Pritchard**

**Cywilydd**
Y fath gywilydd! Mi anfonodd ffrind i mi lun ataf heno i ddangos lle bu am dro yn ystod y pnawn. Mi wyddwn mai llun o'r Wyddfa oedd o, ond doedd gen i ddim syniad o ba gyfeiriad y'i tynnwyd. Mi fentrais ateb. Doeddwn i ddim yn gywir; ond wna i ddim cyfaddef pa mor bell ohoni oeddwn i. Digon yw dweud fy mod yn anghywir! Siawns nad oes raid i mi ddweud wrth y byd a'r betws pa mor anghywir oedd hynny!

Roedd y llun yn profi mor ddieithr i mi yw copaon fy nghynefin. Fedrwn i ddim nabod yr olygfa am nad oeddwn yn gyfarwydd â'r copa y tynnwyd y llun ohono. A doedd ryfedd hynny gan na fûm ar ei gyfyl erioed. Byddai llawer ohonoch wedi adnabod yr olygfa mewn eiliad am eich bod wedi sefyll ar y copa hwnnw ryw dro neu'i gilydd.

Nid y ffaith nad oeddwn yn nabod yr olygfa oedd y cywilydd. Doedd dim disgwyl i mi ei nabod a minnau heb erioed ei gweld. Y cywilydd oedd na fûm i, sydd wedi fy magu yn yr ardal hon ac wedi byw yma am ran helaethaf fy mywyd, erioed ar y copa y dringodd fy ffrind iddo heddiw.

Mae'r Efengyl yn anghyfarwydd i lawer. Soniwch wrthynt am Grist a'i groes, ac mae'r cyfan yn ddieithr iddynt. Mae'r sôn am aberth Calfaria ac anhraethol werth marwolaeth Iesu yn gwbl anghyfarwydd iddynt. Ond does dim cywilydd yn hynny. Oherwydd dieithr ac anghyfarwydd yw'r pethau hyn, a thywyll ac annealladwy fyddant hefyd heb i bobl sefyll ac edrych trwy ffydd ar yr olygfa a ddarlunnir i ni trwy'r Efengyl hon.

Y cyfan a wêl rhai yn yr olygfa honno yw creulondeb mwyaf erchyll at ddyn da a gwastraff llwyr o fywyd a oedd hyd hynny wedi ei gysegru yng ngwasanaeth Duw er mwyn pobl eraill. A does dim cywilydd os mai dyna a welwch. Ond y mae llawer mwy i'r olygfa na hynny. Mae yma hefyd ddoethineb fawr a chariad perffaith; mae yma fwriadau da a chynllun dwyfol; mae yma fywyd tragwyddol a buddugoliaeth lwyr. Ond wêl neb hynny heb iddyn nhw sefyll yng nghysgod y groes hon, a syllu ar y Crist fu'n hongian arni. Wêl neb brydferthwch yr olygfa heb iddyn nhw ymateb i wahoddiad yr Efengyl i ystyried yr hyn a wnaeth Crist drostynt.

Nid yn yr anwybodaeth am Grist a'i waith y mae'r cywilydd ond yn yr amharodrwydd i ymateb i alwad Duw i gredu'r newyddion da amdano; yn y gwrthodiad i dderbyn eglurhad Duw yn yr Efengyl o'r hyn a ddigwyddodd ar Galfaria, a'i berthnasedd i'n bywydau ni. Ond er y cywilydd, y mae yna obaith am fod Duw yn dal i wahodd pobl sy'n amharod i wrando ac sy'n gwrthod ei neges i droi mewn edifeirwch a cheisio ganddo ffydd i syllu ar Grist a thrwy hynny ryfeddu at yr olygfa fwyaf rhyfeddol a gaed erioed.

# Enwau

## Gan Andre Lomozik

Eleni rwyf wedi bod yn cofnodi cerrig beddau ym mynwent gyhoeddus Coetmor, i Gymdeithas Teuluoedd Gwynedd.

Yn y rhan yr oeddwn i yn cofnodi roedd yna 824 o feddi, a dechreuais sylwi ar enwau'r ymadawedig. Roedd rhai enwau'n anghyffredin ac eraill yn ddigon cyfarwydd. Dechreuais feddwl sawl enw gwahanol oedd yno a faint o'r un fath oedd i'w weld.

Felly dyma fynd ati i wneud rhyw fath o dabl o'r holl enwau, yn wŷr a gwragedd, a dyma'r canlyniadau:- Roedd nifer o'r cerrig beddau gyda llythrennau yn unig arnynt e.e. W. P. neu S. A. a J. Jones, felly nid oedd yn bosib cynnwys y rhain yn y rhestr. Allan o'r 824 o feddi yn y rhan oeddwn yn cofnodi roedd 1,394 o enwau i'w gweld.

Ymysg y dynion, y mwyaf poblogaidd, gyda chyfanswm o 101 oedd John, yna William 89, Thomas 53, Richard 46, Robert 39, Owen 37, Hugh 34, David 30, Henry 17, Evan 16, Griffith 16, Edward 13, Willie 8, Ellis 7, Arthur 5, Gwilym 5, a Lewis 5. Roedd 4 Ebenezer, Emrys, Ifor a Samuel; 3 Albert, Benjamin, Caradog, Edwin, Elias, George, Glyn, Glynne, Hughie, Idris, Morris, Moses, Rowland a Rhys. Roedd dau o bob un o'r canlynol Arfon, Brynmor, Charles, Dafydd, Derek, Dewi, Eifion, Elwyn, Emlyn, Ernest, Ewart, Federick, Gruffydd, Harold, Herbert, Idwal, Jacob, Joseph, Kenneth, Meirion, Roland, Trefor, ac yna un yr un o'r canlynol, sef Alan, Alfred, Arron, Bob, Brinley, Buller, Cecil, Cemlyn, Ciryl, Cyril, Christopher, Daniel, Dennis, Dirk, Duncan, Dylan, Eben, Elfed, Elsworth, Eric, Eurfron, Frank, Geraint, Griff, Humphrey, Iorweth, Isaac, Jack, Johnnie, Johnny, Keith, Llewelyn, Magnus, Maldwyn, Matthew, Mathew, Nefydd, Neil, Norman, Oscar, Pierce, Price, Raymond, Rolant, Simon, Stanley, Tommy, Trefor, Tudor, Venmore, Wil, a Wyn.

Ymysg y merched gyda 99 oedd Mary, roedd Margaret gyda 85, Jane 68, Elizabeth 63, Ellen 53, Ann 43, Catherine 43, Grace, 23, Sarah 14, Hannah 13, Annie 12, Gwyneth 7, Anne a Mair 6, Glenys, Gwladys, Megan ac Olwen 5. Roedd 4 o'r canlynol Alice, Ceridwen, Dorothy, Eluned, Emily, Jennie, Maggie, a Myfanwy. Dim ond tri enw gyda thair o ferched i bob enw oedd Blodwen, Ethel a Laura. Dau i bob un o'r canlynol sef Caroline, Clara, Doris, Edith, Elsie, Enid, Esther, Fanny, Gladys, Janet, Kate, Katie, Lilian, Lily, Lizzie, Lydia, Maria, Marian, Marry, Martha, Menai, Minnie, Muriel, Myfi, Nancy, Nellie, Nesta. Un enw oedd o'r gweddill sef Angela, Anna, Anwen, Beatrice, Beryl, Bet, Betsy, Betty, Carol, Charlotte, Dilys, Dorcas, Edelgard, Edelia, Edwina, Eirian, Eirlys, Eirwen, Eleanor, Elen, Elinor, Eliza, Ellza, Emma, Eronwy, Evelyn, Fedora, Gaenor, Gaynor, Gertrude, Gwen, Gwendoline, Gwennie, Hazel, Helen, Ivy, Jenny, Jessie, Joyce, Judith, Lavinia, Lena, Leslie, Lettice, Lilly, Lottie, Llinos, Mable, Margaretta, Marion, Marjorie, Matilda, Nell, Nest, Nora, Peggy, Polly, Priscilla, Rebecca, Rose, Ruth, Rhian, Siphie, Susie, Sydna, Violet, Winifred.

Dyma'r holl enwau mewn un rhan o bump yn y fynwent. Pwy a ŵyr pa enw ddaw i'r fei wrth i'r gwaith cofnodi fynd yn ei flaen. Efallai nad yw o ddiddordeb i lawer, ond i rai fel fi sydd yn ymddiddori mewn ystadegau, mae'r tabl yma wedi rhoi pleser i mi ac wedi ychwanegu at fy ngwybodaeth o enwau trigolion gorffennol ein hardal.

# Enwau Dyffryn Ogwen 4

(Diolch i Dafydd Fôn Williams am ei ganiatâd i ddefnyddio cynnwys allan o'r wefan 'Enwau Dyffryn Ogwen'. Mae o'n gweithio ar y wefan ac yn cynnwys mwy o'i waith ymchwil i enwau'r fro wrth fynd ymlaen, felly bydd ychwanegiadau a newidiadau i rai o'r nodiadau fel mae'r gwaith yn datblygu.
Trafodir enwau sy'n dechrau gyda'r llythrennau H i N y mis hwn.)



**Dafydd Fôn Williams**

**H**

Hafoty - Tŷ lle'r eid a'r anifeiliaid dros yr haf, fel arfer yn uwch i'r mynydd Hendre - Y prif gartref sefydlog, yr hen enw ar yr iseldir ger y môr yn Llanllechid
Highgate - O'r Saesneg 'high' uchel neu brif') a 'gate' yn golygu bwlch neu ffordd

**L**

Lôn Isa - y lôn isaf, o'i chymharu â'r uchaf, trwy Lanllechid

**Ll**

Llafar (afon) - afon swnllyd
Llandygai - eglwys Tegai
Llanllechid - eglwys Llechid/ eglwys y llechwedd
Llain - darn cul, neu hirgul, o dir
Llain y Ffwlbart - tir wedi ei gysylltu gyda ffwlbartiaid, neu un ffwlbart penodol
Llety'r Bwgan - tŷ yn gysylltiedig gyda stori am fwgan
Llwyn Bleddyn - coed yn gysylltiedig gyda pherchennog/ tenant o'r enw Bleddyn
Llwyn Celyn - llwyn o goed celyn
Llwyn y Penddu - llwyn rhywun efo'r llysenw 'Y Penddu'
Llys y Gwynt - lle gwyntog, castell y gwynt

**M**

Maes Caradog - tir eang, agored ym meddiant Caradog
Maes y Penbwl - tir eang, agored yn eiddo i rywun gyda'r llysenw Penbwl efo pen mawr, neu rywun dwl
Mignant - dyffryn cul, corsiog
Moelyci - moel ym meddiant Lleucu

**N**

Nant - 1. cwm/glyn 2. afonig, ffrwd
Nant Heilyn - glyn yn eiddo i Heilyn
Nant Gwreiddiog - glyn efo llawer o wreiddiau ynddo
Nant y Graen - glyn efo graean yn ei nodweddu
Nant y Tŷ - glyn ble mae adeilad OND yn 1768 Nant Du - cwm tywyll



# CHWILAIR


## Capeli Dalgylch Llais Ogwan

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| E | J | K | C | Z | A | E | C | B | Q | H | U | D | S | K | M | N | C | Y | I |
| Y | H | U | W | K | N | H | S | I | L | L | Z | J | P | S | M | E | I | K | M |
| J | M | B | G | E | Z | O | L | X | V | P | K | H | V | P | H | B | Q | W | G |
| Q | B | M | A | E | V | W | F | J | E | R | U | S | A | L | E | M | C | Z | R |
| S | G | X | G | M | R | G | P | M | J | V | P | A | K | T | F | M | A | N | G |
| O | P | I | O | O | A | L | T | E | S | E | Y | L | H | S | O | O | R | N | T |
| X | O | P | V | L | L | N | A | A | N | Y | A | E | T | X | G | Q | N | Y | U |
| B | C | J | W | F | Y | G | A | N | P | I | L | Z | U | K | A | A | E | P | U |
| M | N | T | Y | H | E | D | N | Z | D | T | E | I | E | K | M | C | D | J | H |
| H | B | H | V | G | J | P | B | E | Y | G | K | L | B | T | K | A | D | S | N |
| L | S | A | C | G | N | U | Q | N | B | G | V | M | L | B | R | R | I | L | G |
| P | J | C | W | P | V | A | Y | R | R | Y | W | J | V | U | X | C | G | N | T |
| U | L | K | E | X | M | M | D | Y | Q | P | T | C | L | A | S | D | F | C | J |
| Q | L | O | H | S | A | K | C | S | Z | F | U | N | L | S | Z | L | A | T | C |
| P | P | X | P | E | U | I | Q | W | H | G | B | N | A | J | A | I | X | E | B |
| W | J | E | S | S | I | L | O | A | M | G | O | M | X | N | K | D | D | Q | H |
| K | O | W | V | E | T | T | R | E | J | M | H | Y | K | F | G | A | W | V | A |
| E | ~~B~~ | ~~E~~ | ~~T~~ | ~~H~~ | ~~E~~ | ~~S~~ | ~~D~~ | ~~A~~ | R | S | A | R | O | N | N | H | Q | O | O |
| M | U | E | B | R | Y | N | T | E | G | S | G | E | W | X | C | G | X | R | D |
| K | L | L | U | X | K | X | H | O | A | W | P | K | Y | X | P | Q | K | D | C |

Yn y chwilair mis yma mae enw DEUDDEG O GAPELI DALGYLCH LLAIS OGWAN i'w ddarganfod, Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

NID OES ANGEN ANFON ATEBION AR GYFER Y CHWILAIR YMA, I'CH DIDDORI YN UNIG YW. Ymddiheuriadau, ar ôl egwyl yr haf anghofiais roi atebion chwilair Gorffennaf i chwi mis diwethaf. GWLEDYDD EWROP, Alban; Almaen; Awstria; Denmarc; Eidal; Ffindir; Ffrainc; Groeg; Malta; Portiwgal; Spaen; Sweden. Atebion Medi, ACTORION a CHANTORION ENWOG, Anthony Hopkins; Bryn Terfel; Catherine Zeta Jones; Hugh Griffith; Ioan Gruffudd; Katherin Jenkins; Rachel Thomas; Richard Burton; Shirly Bassey; Sian Phillips; Tom Jones.

# Yn yr Ardd



**Plannu bylbiau**

Wrth i'r dyddiau fyrhau, rŵan ydy'r amser i blannu bylbiau'r gwanwyn. Mae'r pridd yn dal yn gynnes ac fe fydd cyfle iddyn nhw fagu gwreiddiau, ond gadewch blannu tiwlipau tan ddiwedd Tachwedd. Oergaledwch nhw cyn eu plannu. Os am eu gosod yn anffurfiol, taflwch nhw i fyny wedyn eu plannu lle maen nhw'n disgyn.

**Creu lawnt**

Rŵan yw'r amser hefyd i greu lawnt newydd, neu ei thrwsio, ei hawyru a'i sgriffio. Parhewch i dorri lawnt sefydlog sy'n dal i dyfu, ond gadewch hyd at 3" o dyfiant dros y gaeaf. Mae'n well peidio â'i droedio, os yn bosibl.

**Cyffredinol**

Torrwch hen dyfiant coediog i lawr at y bonyn. Bwydwch camelia, tri lliw ar ddeg (hydrangea) a rhododendron â gwrtaith arbennig i flodau sy'n hoffi pridd asid. Defnyddiwch y llawnder tymhorol o ddail a glaswellt ar gyfer eich tomen gompost. Dewch â'r planhigion tŷ i mewn dros y gaeaf, a'u cynefino'n raddol i'r tymheredd gwahanol. Bydd angen i offer yr ardd gael eu glanhau a'u hogi cyn eu cadw dros y gaeaf. Cofiwch lanhau'r potiau hefyd. Mae 'Jeyes Fluid' gwan yn eu diheintio'n dda.

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB

MODURON PANDY Cyf.
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY
UNIPART CAR CARE CENTRE

# Côr y Penrhyn

gan Derfel Roberts

**Llwyddiannau**
Y mis hwn awn yn ôl i fis Ebrill 1975 pan oedd y diweddar Caeron Roberts, Tregarth yn ysgrifennu colofn am y côr i Lais Ogwan.
Y mis dwytha' fe gofiwch bod ei erthygl yn sôn am y llu o lwyddiannau a gafodd y côr o dan arweinyddiaeth Mr Ffrancon Thomas. Yma, mae'n trafod rhai o'r llwyddiannau hynny ac yn croesawu Mrs Menai Williams fel ei olynydd.

**Butlins**
Bu Mr Ffrancon Thomas yn organydd eglwysig ymron ar hyd ei oes ac oherwydd hynny roedd o'n hoff iawn o ddarnau crefyddol fel 'O Vos Omnes'; 'O Sacrum Convivium' a 'Salm 23'. Canwyd y darnau hyn lawer gwaith mewn cyngherddau a hefyd mewn cystadlaethau. Mae'n werth dyfynnu o feirniadaeth Mr Kenneth Robertson, mab Syr Hugh Robertson, arweinydd enwog Côr Orffiws Glasgow am ddatganiad y côr pan enillasant y wobr gyntaf am ganu *O Vos Omnes* yn Eisteddfod Butlins yn 1957. Cymharodd y canu i rediad afon fel hyn, "There is a pulse here, there is life. We could scarce forebear to cheer. A fine flow - but on the river there are launched boats of real beauty. The eternal flux is here, a living stream."

Cystadlodd y côr am y tro cyntaf yn Eisteddfod Llangollen yn 1968 a llwyddodd i ddod yn bumed allan o un ar bymtheg o gorau meibion o nifer mawr o wledydd. Campwaith go dda ar yr ymgais cyntaf.

**Teyrnged**
Oherwydd cyflwr ei iechyd bu raid i Mr Thomas roi'r gorau i'r arweinyddiaeth am gyfnod a chymerwyd y côr gan Mr Gwynfor Jones, Tregarth, un arall o fechgyn yr ardal sy'n gerddor ac yn organydd gwych. Ar ôl seibiant daeth Mr Thomas yn ôl ond roedd hi'n amlwg nad oedd wedi gwella'n ddigon da i ddal ymlaen gyda'r gwaith caled a bu raid iddo ymneilltuo ym Mehefin 1970 ar ôl gwasanaeth gwerthfawr am dri deg a phump o flynyddoedd. Cynhaliwyd cyngerdd i roddi teyrnged iddo yng Nghapel Jerusalem, Bethesda ar 4 Hydref 1970 Roedd y capel mawr yn orlawn a noson i'w chofio am byth oedd hon gyda'r côr yn cymryd rhan gydag arweinydd newydd sef Mrs Menai Williams, Hogia'r Deulyn, Mr Dyfrig Williams a Mr D. Norman Jones yn unawdwyr. Talwyd teyrnged arbennig gan Mr James Williams o'r BBC ac anrhegwyd Mr Thomas gan Lywydd y côr, sef y Foneddiges Janet Douglas Pennant.

**O ddifrif**
Daeth un cyfnod i ben a dechreuwyd ar gyfnod newydd pan ddewiswyd yn unfrydol Mrs Menai Williams yn arweinydd. Hi eto'n gyfeilydd y côr ar y pryd ac wedi bod yn athrawes cerdd yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Mae'n adnabyddus iawn wrth gwrs fel Cyfarwyddwr Côr Cerdd Dant, Hogia'r Ddwlan, sydd wedi ennill bri yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd nifer yr aelodau wedi gostwng i ryw ddeugain erbyn hyn ond ymhen ychydig o amser aeth y rhif i fyny i dros saithdeg a'r aelodau newydd yn fechgyn ifanc bron i gyd. Dechreuodd Mrs Williams ar y gwaith o ddifrif ac ni fu unrhyw arweinydd côr yn gweithio'n galetach a heb amheuaeth roedd yn rhaid iddi gael perffeithrwydd ymhob darn a ddysgwyd.



Menai Williams arweinydd Côr y Penrhyn yn 1970 mewn llun a dynnwyd ohoni gyda'r côr y flwyddyn honno

## Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Canslwyd cyfarfod blynyddol y gangen, y cyfarfod misol a'r daith gerdded flynyddol oherwydd rheoliadau Covid-19. Ond cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor Gwaith Etholaeth Arfon ar y we trwy ddefnyddio ZOOM, yn bennaf i baratoi am etholiad Senedd Cymru yn mis Mai 2021.

Ar ôl cystadlu brwd i ddewis y pedwar ymgeisydd ar gyfer seddau Rhanbarth Y Gogledd yn etholiadau Senedd Cymru, dewiswyd Carolyn Thomas (Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir Fflint) fel y cyntaf ar y rhestr.

Trist oedd marwolaeth Gerry Jenson, Tregarth (dirprwy gadeirydd y gangen a chyn-Ddirprwy Bennaeth Coleg Llandrillo) ar ôl salwch hir.

Bydd y gangen yn colli ei brwdfrydedd a chyfeillgarwch. Cafwyd cynhebrwng preifat trwy wahoddiad yn amlosgfa Bangor a gwasanaeth coffa ar y we wedyn.

## Sudoku

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 9 | 2 | | 5 | | 3 | | |
| | 4 | 3 | | 2 | | 1 | | |
| | 5 | | 3 | 9 | | | 2 | 4 |
| 2 | 6 | 5 | | | 3 | 8 | | |
| 4 | | | | | 1 | | | 3 |
| | | 7 | 4 | | 2 | | | |
| | | | 7 | 4 | | 5 | | |
| 9 | | | 2 | | 5 | 6 | | |
| 5 | 2 | | | 3 | | | | 7 |

Atebion ar t24


# Adnabod y wynebau o hen lun y côr

Nôl yn rhifyn mis Gorffennaf, roedd Derfel Roberts yng ngholofn Côr y Penrhyn yn holi os oedd unrhyw un yn adnabod y wynebau o hen lun o'r côr.

Diolch yn fawr i James Griffiths, Waen Wen am fynd ati i hel meddyliau ac anfon yr enwau sy'n wybyddus iddo fo draw. Tybed oes darllenwyr eraill sy'n cofio rhai o'r wynebau sy'n weddill?

Diddorol iawn oedd gweld llun o Gôr y Penrhyn yn rhif mis Gorffennaf Llais Ogwan. Ond nid Côr y Penrhyn ar ben ei hun mo hwn ond dau gôr, sef Côr Penrhyn a Chôr Meibion Llanfairfechan – roeddynt wedi dod ynghyd ar gyfer cyngerdd yn y 'Festival Hall' yn Llundain yn 1955.

Yr oeddwn yn Gyfeilydd Côr Meibion y Penrhyn o 1970 i 1987, ac yr oedd llawer sydd yn y llun yma yn aelodau yn ystod fy nghyfnod fel cyfeilydd. Credaf fy mod yn adnabod sawl un yn ôl eu henwau a llawer mwy, ond wedi anghofio eu henwau!




**Côr y Penrhyn a Chôr Meibion Llanfairfechan a ddaeth ynghyd ar gyfer cyngerdd yn y 'Festival Hall' yn Llundain.**

Ta waeth, dyma nhw'r rhai adnabyddus i mi.

1. W. Ffrancon Thomas, Arweinydd Côr y Penrhyn
2. T. Gwynn Jones (Gwyn Dob) Arweinydd Côr Llanfairfechan
3. Sulwen (Renshaw yn ddiweddarach), Cyfeilydd Côr Llanfairfechan
4. Harry Jones, Bangor
5. J. Ivor Griffiths, Bangor (brawd fy nhad)
6. Alun Williams, Rhiwlas
7. R. James Jones, Bangor
8. Raymond Owen (Raymond Joci), Llandygai
9. Emrys Morgan, Bethesda. Ni fyddai cyngerdd Côr y Penrhyn yn gyflawn heb yr un unawd gan Emrys bob tro, sef "A yw f'enw i lawr?". Ac ar ganiad y cytgan olaf fe fyddai dagrau'r hen Emrys yn llifo i lawr ei ruddiau. Llais Tenor da ac yn canu yn ei acen Ceredigion.
10. Robert John Lewis, Bangor. Tad Arnold Lewis fu'n gyfeilydd Côr y Penrhyn yn ystod cyfnod llwyddiant mawr yn y 'Steddfod Genedlaethol. Daeth Arnold yn ddiweddarach yn Bennaeth Cerdd BBC Cymru.
11. Harry Roberts, Bethesda – un o'r dynion mwyaf ffraeth i mi ei gyfarfod erioed yn nhraddodiad y chwarel.
12. Jack Pritchard, Bethesda – baswr o fri.
13. Jack Lloyd Owen, Bangor
14. T. Caeron Roberts, Tregarth
15. Meredith (Meredydd?) Jones, Bethesda
16. Jack Pritchard, Mynydd Llandygai
17. W. (Lorraine?) Hughes?
18. Bert ___________
19. Griff Griffith, Aber
20. Tom Morgan, Bethesda
21. Idwal Griffith, Mynydd Llandygai

(Efallai fod ambell gamgymeriad oherwydd ansawdd cyffredinol y llun.)

**James Griffiths**

# Ysgol Pen-y-bryn ac Abercaseg



Disgyblion Elidir a Glyder

**Rhoi hyder yn nhwf yr hedyn - yw cais**
**Abercaseg, wedyn**
**I bridd a maeth Penybryn**
**Fel y daw yn flodeuyn.**

**Croeso Nol**

"Cenedl heb iaith, Cenedl heb galon" medden nhw, ac "Ysgol heb blant, Ysgol heb galon" meddem ninnau. Yn wir, dyna oedd ein hanes ni gyd yn y Dyffryn am fisoedd lawer. Ond diolch i'r drefn, fe ddaeth haul ar fryn yn llythrennol ddechrau mis Medi, pan agorwyd giatiau Penybryn ac Abercaseg led y pen i groesawu PAWB yn ôl.

Teg dweud fod emosiynau pawb yn gymysg oll i gyd, rhieni, staff, ac wrth gwrs y plant, o nerfusrwydd i lawenhau, o'r cyffro i'r gofidio, a hynny i gyd yn gwbl naturiol o dan yr amgylchiadau amwys. Ond, roedd croeso cynnes yn disgwyl pawb! A pha groeso gwell na chael ein Pennaeth newydd, Mr Gethin Thomas (yn smart yn ei siaced lachar felen) yn croesawu pob un plentyn wrth y giât ar eu diwrnod cyntaf gyda gwên, gair o gysur, a chadarnhad y byddai popeth yn iawn! Ac ydi, mae popeth yn well na 'iawn' acw.

Bellach mae pawb wedi ymgartrefu yn eu dosbarthiadau newydd, a does dim byd gwell na chlywed sŵn plant hapus yn atseinio drwy'r adeiladau. Sôn am adeilad, mae'n debyg fod y rhan fwyaf ohonoch wedi dotio ar weddnewidiad trawiadol Penybryn. Mae'r tu mewn yn mynd i gael sylw haeddiannol gyda phaent newydd a sglein i'r Neuadd a dosbarthiadau'r plant! Felly dyma ddechrau newydd i ni gyd, mewn cyfnod ansicr iawn ond fe ddown drwyddi!

**PENYBRYN**

**Elidir: Blwyddyn 6**

Mae plant hyna'r ysgol wedi hen ymgartrefu bellach, a phob un yn cyrraedd yr ysgol yn wên o glust i glust. Rydym wrthi yn cynllunio ein thema newydd sef 'Teithio', a phawb yn meddwl am gwestiynau a thasgau diddorol maent yn dymuno eu gwneud yn ystod y tymor i gyd-fynd a'r pedwar diben a'r cwricwlwm newydd, wrth gwrs. Mordaith y Titanic sy'n mynd a'u bryd ar hyn o bryd; edrychwn ymlaen at weld syniadau'r plant yn cael eu gwireddu ar lawr y dosbarth!

Ond, roedd y plant yn awyddus iawn hefyd i ddysgu am Mr Gethin Thomas, ein Pennaeth newydd ar gychwyn blwyddyn ysgol fel hyn, ac yn awchu am gyfle i holi a stilio. Felly, mwynhewch y cyfweliad gan flwyddyn 6.

**Ble y cawsoch eich magu?**
Bontnewydd ger Caernarfon

**Pwy sydd yn byw yn eich tŷ chi?**
Nia, fy ngwraig a fy mhlant – Dafydd (11 oed) ac Ela (9oed)... heb anghofio Modlan y ci (5 oed!)

**Pa swyddi ydych chi wedi ei gael cyn dod yn Bennaeth?**
Rwyf wedi gweithio mewn sawl swydd i fod yn onest - gweithio ar gaeau yn codi tatws o fore gwyn dan hwyr! Ond bum hefyd yn athro yng Nghaergybi, Pentraeth, Llanfairpwll ac yn bennaeth Ysgol Pentreuchaf ger Pwllheli am 11 mlynedd!

**Beth ydych yn mwynhau ei wneud yn eich amser hamdden (os oes ganddoch amser)?**
Dwi'n hoff iawn o dreulio amser efo'r teulu – gwyliau, mynd am dro, beicio ac ati. Dwi hefyd yn hoff iawn o chwaraeon yn enwedig pêl-droed a rygbi. Dwi'n ceisio bachu ar bob cyfle i fynd i redeg fel arfer ar y ffordd yn ddiweddar – ond does dim i guro'r mynyddoedd. Dwi'n breuddwydio'n aml wrth syllu allan drwy'r ffenestri ar fynyddoedd godidog Dyffryn Ogwen gan ddweud yn aml ein bod yn byw mewn lle braf!

**Beth oedd eich uchelgais pan yn blentyn?**
Roeddwn yn breuddwydio am ddreifio loriau mawr ar draws y cyfandir – Ffrainc, Sbaen, Yr Eidal. Yn wir, mae'r atynfa i grwydro dros Ewrop dal yn fy ngwaed, ond yn fy fan VW – nid mewn lori! Ond cyn hir, daeth yn amlwg fy mod yn mwynhau cwmni plant yn fwy na loriau a mi dyfodd yr awydd i fod yn athro wedi i mi gwblhau fy nghwrs coleg.

**A oes ganddoch arwr heddiw?**
Ers i mi ei weld ar y newyddion, pan oeddwn yn fachgen 15 oed, yn cerdded allan o'r carchar ar ôl 27 mlynedd dan glo yn Ne Affrica, mae Nelson Mandela wedi bod yn arwr i mi.

**Eich hoff le yn y byd a pham?**
Ben Boncan Dinas Dinlle achos yr olygfa 360 gradd anhygoel o fynyddoedd Eryri, lawr am yr Eifl a Phenrhyn Llyn, draw am Ynys Llanddwyn ac Aber Menai – a dim ond tafliad carreg o fy ngharte! Lle i'r enaid gael llonydd!

**Hoff fwyd a chas fwyd?**
Hoff fwyd: Cinio Dydd Sul.
Cas fwyd: Cwstard lympiog a semolina!

**Beth sydd yn gwneud i chi deimlo'n hapus?**
Teulu a ffrindiau.

**A oes rhywbeth yn codi ofn arnoch?**
Dydw i ddim yn honni fy mod yn ddyn dewr o gwbl, ond does 'na fawr ddim yn codi ofn arnai. Wel... nadroedd efallai!

**Unrhyw ffaith ddiddorol arall amdanoch?**
Dwi wedi neidio allan o awyren dwywaith! Tro cyntaf ar ben fy hun bach 2,000 o droedfeddi yn Swydd Caer, a'r eildro 12,500 troedfedd gan lanio ar draeth cynnes yn Awstralia! Dwi hefyd wedi bwyta crocodeil i swper!

**Glyder a Glyder Fach**

Mae pawb wedi setlo'n ôl yn arbennig o dda ar ôl cyfnod mor wahanol. Braf gweld ffrindiau'n ôl gyda'i gilydd a chyfleodd i wneud ffrindiau newydd. Teithio yw ein thema am y tymor ac yn barod rydym ynghanol gwaith diddorol. Mae'r plant wedi bod yn brysur yn cynllunio a rhannu eu syniadau ynglŷn â'r meysydd hoffent ddysgu amdanynt a'r mathau o dasgau maent eisiau gwneud. Drwy gwis 'Myfi fy hun', rydym wedi dysgu llawer iawn am ein gilydd...diddorol iawn! Maent wedi dechrau astudio Titanic ac wedi llunio amserlen o ddigwyddiadau'r drychineb. Nesaf, maent am geisio greu llun o'r long drawiadol. Edrychwn ymlaen at ddysgu am gynhesu byd eang yn y gwersi gwyddoniaeth ac mae Miss Roberts wedi dechrau gwaith technoleg gyda'r dosbarth yn ogystal â chynnal sesiynau addysg gorfforol heriol a hwyliog!

PARHAU AR T21



Glyder Fach



Rydym wedi gwirioni gyda'r newidiadau sydd wedi digwydd i adeilad yr ysgol sydd, heb os, wedi ennyn balchder y plant.

**Tryfan a Carnedd**

Croeso mawr i 34 o ddisgyblion newydd sydd wedi trosglwyddo o Ysgol Abercaseg. Er na chafwyd y cyfnod pontio arferol yn ystod tymor yr haf, bu'r ddeuddydd cyntaf gyda ond blwyddyn 3 yn yr ysgol yn fuddiol iawn er mwyn i'r plant gael ymgyfarwyddo gyda'u hamgylchedd newydd a dod i adnabod y staff. Treuliwyd y ddeuddydd yn crwydro'r ysgol ac yna gwneud cynllun ohoni cyn gorffen gyda helfa drysor lle roedd angen datrys cliwiau i fynd o le i le yn yr ysgol er mwyn darganfod y trysor yn y lleoliad olaf. "*Roedd yr helfa drysor yn wych, roedd rhaid i mi feddwl yn ofalus am rai o'r cliwiau*," meddai Sol.

Mae dosbarthiadau Tryfan a Carnedd wedi bod yn hynod brysur yn cynllunio thema newydd 'Ein Cynefin' gan rannu llawer o syniadau o'r hyn maent eisiau ei wneud a'i ddysgu. Dyma nhw wrthi'n brysur yn trafod, meddwl a chynllunio'r thema.

Dyma sylwadau'r disgyblion yn dilyn y broses o gynllunio'r thema: "Dwi'n meddwl ei bod hi'n bwysig dysgu am le da ni'n byw cyn cychwyn sôn am bethau o wledydd eraill," meddai Elenia. "Dwi'n falch mai ni sy'n cael cynllunio pa fath o waith fydda ni yn ei wneud," meddai Noa. "Fedra i ddim disgwyl mynd fyny Moel Faban," meddai Caty.

**ABERCASEG**

**Dosbarth Ogwen**

Rydym wedi bod yn hynod o brysur, ac wedi mwynhau pob eiliad. Mae'n rhaid dweud fod y plant wedi setlo'n dda iawn ac yn falch o gael bod yn ôl yn yr ysgol. Er mwyn cael dod i adnabod ein gilydd, rydym yn cynnal gweithgareddau ar y thema 'Fi fy hun'. Mae'r plant wedi lleisio eu barn ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei ddysgu, ac mae nifer o syniadau diddorol iawn wedi cael eu crybwyll. Edrychwn ymlaen i'w rhoi ar waith.

Llwyddodd y plant i efelychu gwaith Picasso wrth greu portreadau o'u hunain yn ystod yr wythnosau cyntaf. Roedd y plant wrth eu boddau, ac wedi cael cryn hwyl arni. Mae nifer o artistiaid talentog iawn yn Nosbarth Ogwen! Braf oedd gweld y plant wrthi'n ddiwyd yn ymarfer eu sgiliau mesur yn ystod nifer o weithgareddau ymarferol yn ddiweddar. Mae'r dosbarth yn edrych ymlaen yn arw i allu rhoi eu sgiliau ar waith wrth fesur taldra ei gilydd. Tybed pwy fydd y talaf?!



Dosbarth Carnedd

**Dosbarth Ffrydlas**



Mae wedi bod yn amser hir ers cael dosbarth llawn ac mae'n wir i ddweud bod y plant a'r athrawon wedi cael mis cyntaf gwerth chweil! Dyma oedd gan ychydig o griw Ffrydlas i ddweud am eu hamser adref a'u hamser yn eu dosbarth newydd:

Elsi: 'Rydw i wedi mwynhau cael chwarae ar y cae gyda fy ffrindiau yn y tywydd braf.'

Cati: 'Roeddwn i'n teimlo'n nerfus cyn cychwyn yn nosbarth Ffrydlas ond rydw i'n hapus iawn yno rŵan.'

Apollo: 'Yn ystod fy amser adref rydw i wedi bod yn gwneud lluniau ar fy iPhone.'

Theo: 'Rydw i wedi bod ar fy xbox hefo dad.'

Chloe: 'Rydw i yn mwynhau yn fy nosbarth newydd.'

Holly: 'Rydw i wedi mwynhau cael bod adra yn chwarae hefo fy nghathod.'

Ifan: 'Rydw i'n hoffi gwneud gwaith yn yr ysgol.'

Seren: 'Rydw i wedi bod yn chwarae tu allan hefo fy nghi.'

Oliver: 'Rydw i'n hoffi bod yn ôl yn yr ysgol a chael gweld fy ffrindiau.'

Mia: 'Rydw i wedi bod yn helpu drwy fynd a chi ein ffrind ni am dro.'

Mollie: 'Rydw i'n hoffi chwarae ar y cae gyda fy ffrindiau a hefyd yn yr ardal magnedau ac ardal Lego.'

Theo: 'Rydw i'n hoffi gwneud gwaith hefo Miss Williams a Mrs Briggs.'

**Dosbarth Tryfan**

Braf oedd croesawu plant yn ôl i ddosbarth Tryfan a chlywed eu hanesion o ymweliadau a phrofiadau di-ri, megis trip i Blackpool, cael picnic ar lan Llyn Ogwen a chael hwyl ar y traeth.

Ers dychwelyd maent wedi mwynhau cwblhau gwaith wedi'i selio ar y thema 'Fi a fy ffrindiau' a'r stori 'Elfed'. Roeddent wrth eu boddau yn arbrofi a chymysgu paent er mwyn peintio Elfed, llunio portreadau o'u hunain a'u ffrindiau a thrafod yr hyn sydd yn eu gwneud nhw yn arbennig. Mi rydym yn edrych ymlaen at weddill y tymor!

**Dosbarth Ffrancon**

Mae'r disgyblion yn hapus cael bod yn ôl yn yr ysgol yn gweld eu ffrindiau pob dydd! Mae hi'n bleser cael rhannu dosbarth gyda phlant sydd yn awyddus i ddysgu wrth gael hwyl!

Evie: Rydw i wedi mwynhau arlunio bob math o luniau yn y cornel sgriblo.

Lwsi: Rydym ni wedi gweithio tu allan yn cymysgu lliwiau er mwyn paentio llun o Elfed yr Eliffant.

Iwan: Rydw i wedi bod yn ymarfer ysgrifennu fy enw yn gywir wrth ddefnyddio sialc tu allan.

Olivia: Hapus cael bod yn nol yn ysgol a gweld fy ffrindiau pob diwrnod.

Leon: Rydw i wedi mwynhau chwarae efo gafelwyr yn ceisio pigo pompoms ai rhannu i bowlenni.

PARHAU AR T22

Scott: Cefais hwyl yn ceisio ail greu llun o Elfed yr Eliffant wrth ddefnyddio papur lliw.
Lottie: Rydw i wedi mwynhau gweithio yn yr ardal adeiladu yn adeiladu gwahanol anifeiliaid.
Jasper: Wedi cael hwyl yn paentio llun mawr o Dina y dinosor.
Gwawr: Yn mwynhau paentio gyda'i bysedd yn ffurfio gwahanol lythrennau.
Gruff: Mwynhau chwarae gyda'i ffrindiau amser chwarae.
Steffan: Yn cael hwyl yn chwarae gyda'r beiciau tu allan.

**Dosbarth Llafar**

Croeso cynnes i blant Dosbarth Meithrin i Ysgol Abercaseg! Mae'n braf eu gweld yn mwynhau yn yr ysgol gyda Miss Thomas, Mrs Doyle, Miss Natalie a'u ffrindiau newydd. Yn ystod yr wythnosau cyntaf mae'r plant wedi bod yn gwneud gweithgareddau thema 'Elfed yr Eliffant'. Mae'r plant wedi bod yn brysur yn creu enfys hardd, ail-adrodd y stori yn yr ardal byd bach a gwneud gweithgareddau adnabod gwerth rhif. Yn ogystal, mae'r plant wedi cwrdd â chymeriad arbennig sydd yn byw yn y dosbarth sef Dina y Dinosor. Mae Dina yn rhan o sesiwn amser cylch wythnosol ac yn helpu i ddysgu'r plant am reolau'r dosbarth, trafod teimladau a chwarae gemau chanolbwyntio a gwrando. Mae'r plant wedi gwirioni gyda Dina y Dinosor ac yn edrych ymlaen at ei gweld pob dydd Llun. Hefyd, mae'r plant wedi bod yn cael sesiynau addysg gorfforol gyda Mrs Hughes ac wedi bod yn chwarae gyda pharasiwt lliwgar Elfed yr Eliffant. Edrychwn ymlaen at fwrw i weithgareddau'r Hydref yn yr wythnosau nesaf tu mewn a thu allan i'r dosbarth.



Manylion Cyswllt Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853

# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



# Cymdeithas dda – 2

Soniais y mis d'wetha' am drigolion Braichmelyn a'r gymdeithas y bûm i'n ddigon ffodus i gael fy magu ynddi. Dyma fynd ymlaen rŵan efo ychydig mwy o hanes yr ifanc yn yr ardal.

Roedd cyfnod ieuenctid plant Braichmelyn yn llawn o hwyl a direidi diniwed (wel, cymharol ddiniwed!). Byddem yn aml yn 'diflannnu' am oriau i Ben-Braich, y tu ôl i stryd hir Braichmelyn a Rhes Jâms – ein 'cae chwarae' pennaf yr adeg honno. Doedden ni ddim ond yn troi am adref pan oedd ein boliau'n dweud wrthym ei bod yn amser bwyd. Ar adegau eraill, ar y stryd o flaen ein tai y byddem yn chwarae amrywiaeth o chwaraeon. Doedd wyneb caled y tar-mac ddim yn ein denu at rygbi a does dim amheuaeth nad unrhyw ffurf ar chwarae pêl-droed oedd ein ffefryn, yn enwedig os oedd pedwar ohonom gyda'n gilydd. Byddai'r genod yn chwarae cortyn – dwy hogan yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, yn sgipio drwy raff, a'r un a allai bara hiraf fyddai'n ennill.

Dro arall, wrth geg Ger-nant gan amlaf, byddai dwy hogan, un bob pen i'r rhaff, yn ei ymestyn ar draws y lôn ac yn ei droi'r un pryd â'i gilydd a merch arall (weithiau ddwy) yn sgipio tua chanol y rhaff a fyddai'n cael ei gyflymu fwyfwy gan y ddwy ferch bob pen iddo. Pan fyddai'r hogia a'r genod yn dŵad at ei gilydd o bryd i'w gilydd, chwarae tic fyddai'r gêm fwyaf poblogaidd a rowndyrs hefyd ar brydiau.

**Gêm wahanol Jac, fy ffrind**

Pan fyddai Jac a minna wedi blino ar bêl-droed (a diflasu ar griced yn yr haf), byddem yn troi at gêm na chlywais i am neb arall erioed yn ei 'chwarae'. 'Cosi gwe pry-cop' oedd enw'r gêm gynnon ni – gêm (os gêm hefyd!) yr oedd Jac wedi'i 'dyfeisio' o'i ben a'i bastwn ei hun. Fel y gallech feddwl, fo oedd pen bandit y chwarae – a minna'n rhyw fath o ysgogydd i baratoi'r ffordd, fel petai, i Jac 'chwarae'r gêm'. Gorchymyn gan Jac i ddechra: 'Dos i chwilio am welltyn go syth a chryf' ac mi a' inna i gael hyd i we pry-copyn go fawr rhwng cerrig y wal 'cw.' A dyna ddechrau'r gêm a roddai bleser anghyffredin i Jac ond nid i'r pry-copyn druan. Fi fyddai'n gorfod cosi'r we efo'r gwelltyn er mwyn gwneud i'r pry-copyn feddwl bod ei ginio'n disgw'l amdano. Y munud y deuai i'r golwg, byddai Jac yn disgwyl iddo fod ar garreg go wastad cyn saethu ei fawd i'w gyfeiriad a'i wasgu'n slwtsh, gan ddathlu ei lwyddiant bob tro gyda'r gair 'Bwls-ai!' Cywilydd ar ein pennau ni am fod mor hynod greulon!

**Y Goelcerth Flynyddol**

Cyn cloi, hoffwn gyfeirio at ddau achlysur arall yng nghalendr plant Braichmêl. Un ydi'r noson tân gwyllt a'r paratoi at godi coelcerth yn y clwt o dir bychan oedd gyferbyn â rhifau 47 a 48. Byddai criw ohonom yn brysur am ddyddiau lawer yn casglu deunyddiau ar gyfer y noson fawr ac yn treulio oriau ymlaen llaw yn torri brigau ym Mhen-Braich a'u cario i lawr lôn Nant-graen at safle'r ddarpar-goelcerth. Byddem yn casglu tomennydd o bapur ac unrhyw ddeunydd arall a fyddai'n mynd ar dân yn hawdd, ynghyd â theiar neu ddau ambell flwyddyn. Byddem yn siŵr o gael gafael ar lond potel Gorona o baraffîn o rywle ond oedolion, gan amlaf, oedd yn gyfrifol am ddefnyddio hwnnw i gynnau'r tân. O gofio'r fflamau a godai'n uchel o'r goelcerth, mae'n syndod bod fy nghartref i, a chartref Derek a Keith drws-nesa', wedi dal i sefyll dros y blynyddoedd.

**Y Cantorion Nadolig**


Yn olaf, cofiaf fel y byddai Jac a minnau'n mynd o gwmpas yn canu carolau ychydig cyn y Nadolig. Dw i'n cyfaddef yn syth nad ydi'r gair 'canu' yn disgrifio'n gywir y sŵn a ddeuai 'n cegau a chân Saesneg oedd gynnon ni – efallai y bydd rhai ohonoch yn ei chofio: 'Christmas is coming / the goose is gettin' fat. Please put a penny / in the old man's hat / and if you haven't got a penny, / a ha'penny will do / but if you haven't got a ha'penny, / Well, God bless you! Oni chaem ymateb, byddai'r ddau ohonom yn rhoi blaen-troed i'r drws a'i charlamu i ffwrdd cyn belled ag y gallem! Hogia drwg, te!

# Covid-19 - Trafod Effeithiau'r Haint

**Haydn Davies, Cyn-Bennaeth Ysgol Gyfun Llangefni sy'n byw yng Nghilfodan, Carneddi yn trafod effeithiau'r coronafeirws a'r cyfnod clo.**

Caiff 2020 ei lle fel blwyddyn a newidiodd ac a effeithiodd ar y byd, o ganlyniad i goronafeirws o'r enw Covid-19. Daeth y feirws i'r amlwg yn Wuhan, Tseina yn Rhagfyr 2019, a lledaenodd i Ogledd Ewrop cyn cyrraedd dros 2000 gwlad erbyn Ebrill 2020. Yn ddisymwth, roedden ni yn y Deyrnas Unedig yn gwylio'i ddatblygiad a'i ledaeniad o bell. Daeth yn arferiad i ni glywed datganiadau dyddiol o Tseina a gogledd yr Eidal lle'r oedd y feirws wedi cael gafael dychrynllyd. Effeithiwyd ar wledydd eraill Ewrop yn ogystal, a daeth maint y pandemig yn amlwg.

Pan gyhoeddwyd ymddangosiadau cyntaf y feirws ym Mhrydain, fe'u triniwyd gyda pheth traha a seiliwyd ar anwybodaeth, difaterwch a methiant yn gyffredinol i gymryd y canlyniadau o ddifrif. Trodd ymdriniaeth lastwraidd y llywodraeth ar y cychwyn yn wrth i'r feirws gyrraedd y DU yn fuan iawn yn ddatganiadau dyddiol ar y newyddion gan wleidyddion amlwg, gwyddonwyr ac arbenigwyr meddygol. Yn anffodus, dewisodd canran uchel o'r boblogaeth anwybyddu rhybuddion a gofynion cyntaf y llywodraeth ynglŷn â phellhau cymdeithasol, teithio angenrheidiol yn unig ac aros gartref. Am y pythefnos cyntaf, dangoswyd i ni'n gyson luniau o drenau gorlawn, a pharciau a llecynnau hardd poblogaidd yn llawn trigolion lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd. Daeth y cyfan i ben yn ystod penwythnos Mawrth 14-16, pan deithiodd miloedd i ymweld â'u hail gartrefi, a'u cartrefi gwyliau, cannoedd o filltiroedd o'u prif gartrefi. O ganlyniad i'r tywydd arbennig o braf a oedd yn effeithio ar benderfyniadau lloerig a hunanol sawl un, heidiodd ymwelwyr i fannau o harddwch gwledig a thraethau. Arweiniodd hyn at y llywodraeth yn datgan y 'polisi arhoswch adre' cryfaf erioed, gyda chanllawiau tyn a chlir. Wrth i'r newyddion gyhoeddi bod y niferoedd o bobl a oedd yn dioddef o'r feirws ac yn drist iawn yn marw ohono, yn codi'n ddyddiol, dechreuodd y cyhoedd yn y DU wrando a dilyn y canllawiau. Amser yn unig a ddengys a fu'r ymateb cychwynnol, llugoer hwn yn gyfrifol dros farwolaeth miloedd yn ychwanegol.



Canlyniad hyn oll oedd bod raid i ni aros gartref a dim ond gadael y tŷ ar gyfer siopa angenrheidiol, rhesymau meddygol neu ymarfer corff. Mae realiti'r ffordd yma o fyw'n amrywio o gartref i gartref ac o ardal i ardal. Yma ym Methesda, lle mae'r dref wedi ei hamgylchynu gan fryniau, llwybrau cyhoeddus a chefn gwlad, hawdd fyddai credu ein bod yn ddiogel ac wedi'n hamddiffyn rhag y feirws. Does dim newid rhy ddramatig i'n bywydau. Gallwn ymarfer, gallwn anadlu awyr iach bob dydd a gallwn barhau i fwynhau'r golygfeydd arbennig o hardd sydd ar stepen ein drws. Mae cymunedau wedi cyd-dynnu i helpu'i gilydd ac mae yna ymdeimlad o wynebu'r trychineb hwn gyda'n gilydd mewn adeg mor anodd.

Mae'n anodd rhagweld pa mor hir y bydd y pandemig hwn yn parhau, faint o fywydau a gollir, faint sydd o deuluoedd na fyddan nhw byth yr un fath eto a faint o fusnesau fydd yn cau'n derfynol. Faint gymerith hi i adennill hyder i deithio i wledydd eraill ac i hynny ddod yn arferol eto? Mae un peth yn sicr, mae'r byd wedi troi'n lle gwahanol dros nos. Rhaid gofyn cwestiynau difrif ynghylch sut edrychwn ni ar ôl ein planed, a sut newidiwn ddiwylliannau a thraddodiadau er mwyn osgoi digwyddiad fel hyn eto.

**Mae rhai pethau aruthrol o bositif wedi codi o'r trychineb hwn.**

Gyda chymaint o wledydd dan gyfyngiad a hyn yn effeithio'n syth ar deithio a theithiau awyren yn cael eu canslo, mae'r effaith i'w weld y syth ar yr amgylchedd. Mae allyriadau carbon wedi lleihau'n sylweddol ac mae'r awyroedd llygredig bellach yn lanach a bydd hyn yn ategu'r dadleuon y dylai pob gwlad hawlio'i chyfrifoldeb. Pan fydd hyn i gyd drosodd, bydd gwyddonwyr yn rhoi ystadegau clir a gafaelgar ynglŷn â'r effaith mae'r cyfyngiadau hyn wedi eu cael ar ein planed.

O safbwynt lleol, a welsom ni erioed ein strydoedd, ein palmentydd a'n parciau mor glir o sbwriel a budreddi? A all hyn fod yn nod i anelu ato yn y dyfodol? Allwn ni gymryd mwy o falchder yn ei hamgylchedd ein hunain pan fo normalrwydd wedi dychwelyd?

O'm safbwynt i, ac o safbwynt ein teuluoedd, oherwydd y cyfyngiad arnom, mae rhieni'n gweld ac yn treulio cymaint mwy o amser gyda'u plant. Crëir adegau hudolus yn y cartref a mwynheir amser amhrisiadwy gyda phlant. Gyda'r ddau riant yn ein teuluoedd estynedig fel arfer allan yn gweithio, mae hi mor amheuthun gweld teuluoedd yn treulio cymaint o amser gyda'i gilydd. Mae brodyr a thair blynedd rhyngddynt yn cyd-chwarae ac yn mwynhau cwmni ei gilydd. Mae'r rhai bach yn creu gemau, yn eu diddanu eu hunain ac mae'r dyddiau'n hedfan. Mae hyn wedi rhoi cyfle i deuluoedd gyda phlant i dreulio amser gwerthfawr fel uned yn y cartref. Oherwydd y cyfyngu ar fynd allan i ymweld â hwylfannau i ddiddanu eu plant, mae teuluoedd yn gorfod bod yn greadigol. O ganlyniad, mae'r plant yn elwa ar yr amser arbennig gyda'u rhieni. Mae'r rhieni hynny'n dod yn athrawon ac wrth wneud gwaith anhygoel eu hunain, dônt i werthfawrogi fwyfwy'r rhai a ddewisodd fynd i ddysgu'n llawn amser. Mae hyn yn hudol. Mae'r bywydau prysur a fu gennym wedi sefyll y ffordd yma. Gwn fod yna rai plant nad ydynt mor ffodus, ac rwy'n pryderu'n arw am eu sefyllfa. Rhaid i ni beidio eu hanghofio a phan ddychwelwn at ryw fath o normalrwydd bydd angen strwythurau newydd a chefnogaeth er mwyn deall a dygymod â'r effaith a gafodd ynysu arnyn nhw. Mae hi mor drist ac anodd i rai bach ddeall pam na allant weld eu ffrindiau. Dydyn nhw ddim y deall pam nad ydy eu teidiau a'u neiniau yn eu cwtshio ac yn dweud wrthynt faint maen nhw'n hiraethu amdanynt a faint maen nhw'n eu caru.

Mae cymunedau'n gofalu am oedolion unig a bregus yn eu cymdogaethau. Rydym wedi ailddarganfod ein gofal a'n gofid dros eraill, yr angen i wneud ymdrech ac i helpu rhai llai ffodus. Rwy'n gobeithio'r aiff hyn o nerth i nerth pan fydd y trychineb hwn drosodd.

Credaf ein bod wedi ailddarganfod rhai gwerthoedd sydd wedi mynd ar goll yn ddiweddar oherwydd prysurdeb ein bywydau. O ganlyniad i gael amser rhydd, mae myfyrio a chynllunio sut i wneud gwell defnydd o'r amser hwnnw wedi'n gwneud ni'n well pobl a gobeithio daw'r gwerthoedd hynny'n rhan gynhenid o'n bywydau wedi dychwelyd i normalrwydd. Rydym bellach yn gwerthfawrogi'r weithred syml o fynd am dro ac er lles y rhai llai ffodus na mi fy hun, rwy'n gobeithio bydd y profiad syml hwn o flasu rhyddid yn eiddo iddynt yn fuan. Daw'r pethau gorau wrth gael y lle a'r llonydd i feddwl, i fyfyrio ac i ymateb yn greadigol.

Mae'r ffordd gefnogol mae diwydiannau Prydeinig wedi ymateb i ofynion y llywodraeth yn dangos i ni faint o dalent a gallu sydd yn y wlad. Dylem ddefnyddio'r profiad hwn fel man cychwyn i ysbrydoli'n disgyblion a'n myfyrwyr i edrych ar beirianyddiaeth, gwyddoniaeth, meddygaeth a gofal iechyd fel gyrfaoedd gwirioneddol anhygoel. Mae cymaint o dalent arloesol yn ein plith a dim ond ar adeg o

PARHAU AR T24

PARHAD O T23

argyfwng y gwelwn ei wir botensial, yn hytrach na'i gymryd yn ganiataol.

Mae'r ffordd mae cyn-staff y GIG/NHS wedi dychwelyd i weithio, a'r holl unigolion eraill sydd wedi gwirfoddoli ym mhob dull posib wedi bod yn wirioneddol ysbrydoledig ac yn peri i rywun deimlo'n ddarostyngedig. Rydym mor falch ac mor ddiolchgar i chi. Mae lluniau'r enfys yn ffenestri'n cymunedau'n arwydd o obaith ac o gydnabyddiaeth. Bydd ein plant yn cofio am byth pryd yr eisteddon nhw i lawr gyda'u rhieni neu eu brodyr a'u chwiorydd i liwio'u henfys. Yn bwysicach na hynny, byddant yn cofio pam.

**Y ffordd ymlaen**

Mae'n debyg mai fi ydy'r person lleiaf cymwys i ddweud hyn ond dydw i ddim yn teimlo y byddaf wedi rhannu fy safbwyntiau'n llwyr oni bai fy mod yn rhoi sylw i'r farn hon. Mae gwleidyddion ar draws y byd weithiau wedi gweithio gyda'i gilydd ond yn annibynnol ar ei gilydd. Mae gwledydd wedi ymddwyn yn wahanol o safbwynt wynebu sialens Covid-19. Hoffwn ddewis y gorau o bob gwlad gyda'r strategaeth orau i daclo'r coronafeirws a gwrthod y rhai heb allu sydd â'r awydd yn bennaf i fodloni eu hego. Mae adegau unigryw yn mynnu arweinwyr unigryw, pobl â gweledigaeth, ond yn bwysicach na hynny, â dealltwriaeth wirioneddol o'r darlun cyfan. Dyma sut y meithrinir ffordd o feddwl yn ddeallus am y broblem gymhleth gan edrych ar y ffeithiau perthnasol yn hytrach na gweithredu'n rhy hwyr.

Mae gormod o betruso yn hytrach na bod yna ddigon o arweinyddiaeth a hyder i benderfynu'n ddoeth ar yr adeg iawn. Credaf y bydd hanes yn canolbwyntio ar gamgymeriadau arwyddocaol ein gwleidyddion ar adeg pan roedd y byd yn haeddu arweinyddiaeth a phenderfyniadau doeth o'r radd flaenaf.

Dyma'r adeg i i sicrhau cydweithredu pellach yn y dyfodol drwy Sefydliad Iechyd y Byd. Wrth i wledydd ddod ynghyd i ddod ynghyd i rannu gwybodaeth ac arbenigedd, byddwn yn gryfach, yn ddiogelach ac wedi paratoi'n well ar gyfer pob her yn y dyfodol.

Yn olaf, ddylen ni ddim anghofio'r teimladau o falchder, yr emosiwn a'r undod o ganlyniad i glapio i'n gofalwyr sydd wedi atseinio dros y wlad ar nosweithiau Iau. Mae sawl un ar y rheng flaen wedi cyflawni'r aberth eithaf wrth helpu eraill. Cofiwn hyd byth y ddyled sydd arnom i'n gofalwyr i gyd. Pan fydd hyn drosodd, rwy'n gobeithio y gallwn ail godi GIG/NHS newydd sy'n ymgorffori'r egwyddorion a amlygwyd, ond gyda'r adnoddau dynol a meddygol a ddaw â'n gwasanaeth unwaith yn rhagor yn flaenllaw yn y byd.

# Nyth y Gân

**SEIRI MEINI**
Eu gwaith sy'n dal i sefyll
Yn gadarn hyd y plwy',
A deil sawl maen yn arwydd
I gofio amdanynt hwy.

Mor gywrain yw'r holl gerrig
A red ar hyd bob clawdd
Gan orwedd ar ei gilydd,
A'r gwaith edrycha'n hawdd.

O hirbell gwêl y cloddiau
Yn hir linellau llwyd;
Amgylchu wnânt y tiroedd
Yn gaeau a dry'n fwyd.

Rhaid cofio am y cysgod
Sy'n rhodd i gae gan rhain
O'i warchod rhag yr heulwen,
Lluwch eira a'r gwynt main.

I blu a ffwr bu'r cloddiau
Yn noddfa am yn hir –
Yr adar mân a'r llygod
A lwyddodd ar ein tir.

Mae mesur efo'r llygaid
A rhoi y cerrig iawn
I godi bwlch mewn cloddiau
Yn dangos beth yw dawn.



**BREUDDWYD**
Mae natur o hyd yn newid,
A breuddwyd llawn gobaith ges i
Ei bod hi yn ddechrau'r gwanwyn
A phobman yn effro a ffri.

Blodau yn dawnsio'n yr awel
A balchder a deimlai pob un
Wrth droi a dangos eu lliwiau
Fel gwelwn mewn llawer i lun.

Gwrychoedd yn siglo yn llawen
A'u brigau yn ystwyth ac ir
Yn taflu cysgod hyd wyneb
Y glesni a red hyd y tir.

Morgrug yn gweithio yn brysur,
Mor wibiog eu camau yw'r rhain
Gan fynd a dod o'u cuddfannau
Hyd lwybrau bach hynod o gain.

Cantorion yn glir o goedlannau
Yn ateb ei gilydd mor llyfn;
Rhai nodau yn uchel a chyflym
Ac eraill yn araf a dyfn.

Yr adar yn gwir ymdrechu
I greu eu cerddoriaeth ym Mai
Gan ddeffro ein hardal yn fore
Fel gallwn eu cyfarch o'n tai.

**Dafydd Morris**

**TYLLUAN**
Ar nos ddu daw'r dylluan – yn ddistaw
  O ddistyn ei chuddfan;
O'r adfail try i hedfan
Am y maes a'r llygod mân.



**CARIAD DUW**
Caredig waredigaeth – i ddynion
  A ddaw'n iachawdwriaeth;
Yn rhyddion o'r cyffion caeth
Yn Nuw y mae'u cwmnïaeth.

**HWYRNOS YN Y MYNYDD**
Mwyn yw hafnos y mynydd, – ei feini,
  Ei fanwellt a'i brysgwydd
I rwydo awen prydydd
Yn oriau dwys hwyr y dydd.

Ynof mae cerdd y mynydd – i'm denu
  A'm dwyn i'r tragywydd,
Ac ynof yn y gweunydd
Y daw'r fwyn dôn derfyn dydd.

**TARTH**
Mae'n wlanen dros y glennydd, – a'i lawes
  O liain yn orchudd;
Yn drwch trwm yn y cwm cudd,
Yn oer faneg ar fynydd.

**ROBIN GOCH**
Yn ei nwyf daw at fy nôr – yn eiddil
  Am nodded ben-tymor;
Mwyn fel angel yw'r telor,
A chu yn canu'n y côr.

**Goronwy Wyn Owen**

## Atebion Sudoku

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | 9 | 2 | 1 | 5 | 4 | 3 | 8 | 6 |
| 6 | 4 | 3 | 8 | 2 | 7 | 1 | 5 | 9 |
| 8 | 5 | 1 | 3 | 9 | 6 | 7 | 2 | 4 |
| 2 | 6 | 5 | 9 | 7 | 3 | 8 | 4 | 1 |
| 4 | 8 | 9 | 5 | 6 | 1 | 2 | 7 | 3 |
| 3 | 1 | 7 | 4 | 8 | 2 | 9 | 6 | 5 |
| 1 | 3 | 6 | 7 | 4 | 8 | 5 | 9 | 2 |
| 9 | 7 | 4 | 2 | 1 | 5 | 6 | 3 | 8 |
| 5 | 2 | 8 | 6 | 3 | 9 | 4 | 1 | 7 |